Canllaw gofalwr maeth i ysbrydoli a chymorth pobl sy'n gadael gofal i fynd i Addysg Uwch

Maria Boffey

rhwydwaith maethu
llais gofal maeth
the fostering network
the voice of foster care

www.fostering.net

Cyhoeddwyd gyntaf gan y Rhwydwaith Maethu 2012
© Y Rhwydwaith Maethu 2012

Ysgrifennwyd gan Maria Boffey, Rhwydwaith Maethu Cymru
e-bost: maria.boffey@fostering.net

Dylunio a chysodi: The Info Group, Caerdydd

Mae'r Rhwydwaith Maethu wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig, rhif 1507277
Swyddfa gofrestredig: 87 Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA
Elusen gofrestredig rhif 280852 yng Nghymru a Lloegr
Elusen gofrestredig rhif SCO39338 yn yr Alban

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu, ei storio na'i chadw mewn system adalw gwybodaeth, na'i throsglwyddo, mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddull (yn electronig, yn fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio neu fel arall), heb ganiatâd blaenorol y cyhoeddwr

ISBN 1 897869 68 1

Canllaw gofalwr maeth i ysbrydoli a chymorth pobl sy'n gadael gofal i fynd i Addysg Uwch

rhwydwaith maethu
the fostering network

> ’Rwyf wedi hollti gyda llawenydd pan ydw i wedi gweld person ifanc yn troi’i fywyd o gwmpas ac yn creu gwell dyfodol iddyn’ nhw’u hunain drwy ennill rhagor o gymwysterau. Mae gwybod fy mod wedi bod â rhan yn hyn yn gwneud bod yn ofalwr maeth yn un o’r swyddogaethau mwyaf arbennig ‘rwyf erioed wedi’i chael.
>
> Gail Duffy

Cydnabyddiaethau

Fe hoffai Rhwydwaith Maethu Cymru ddiolch i'r holl bobl a gyfrannodd i'r canllaw, yn enwedig i Einir Evans, Swyddog Cymorth Myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd a'r Gofalwr Maeth, Gail Duffy.

Cynnwys

Cydnabyddiaethau ii

Ynglŷn â'r canllaw hwn vi

Pennod Un: Cefndir a Rhagymadrodd 1

Rhagymadrodd 2

Rhestr wirio ar gyfer ysbrydoli a chymorth addysg plentyn sy'n derbyn gofal 5

Astudiaethau achos: Y gwahaniaeth y mae gofalwyr maeth yn ei wneud 6

Pennod Dau: Addysg Uwch wedi'i hegluro 7

Buddion Addysg Uwch 8

Diffiniad o Addysg Uwch ac Addysg Bellach 9

Diffiniad o Radd a'i dosbarthiadau 9

Gofynion mynediad i Addysg Uwch i Israddedigion 9

Y Brifysgol Agored 11

Pennod Tri: Y ffordd i brifysgol 12

Opsiynau gyrfa yn 16 mlwydd oed 13

Pwysigrwydd y Cynllun Llwybr 13

Rôl y Cynghorydd Personol 14

Mynediad gohiriedig – Cymryd Blwyddyn i Ffwrdd 14

Adnoddau'r We: Blynyddoedd i Ffwrdd a phrofiad gwaith 16

Pennod Pedwar: Gwneud dewisiadau 17

Dewis y brifysgol gywir a'r cwrs cywir 18

Adnoddau'r We: Dewisiadau o brifysgolion 19

Pennod Pump: Cefnogaeth gyffredinol tra eich bod yn y Brifysgol 20

Yr ystod o wasanaethau cymorth a gynigir mewn prifysgol 21

Cefnogaeth i bobl sy'n gadael gofal – Marc Ansawdd Buttle UK 22

Cefnogaeth arbenigol i bobl sy'n gadael gofal a chysylltiadau wedi'u dynodi gan brifysgol 23

Pennod Chwech: Cymorth Ariannol 25

Adnoddau'r We: Cyllid Myfyrwyr 27

Grantiau a benthyciadau ffioedd – Crynodeb o'r mathau o gymorth ariannol sydd ar gael 27

Ffioedd Dysgu 27

Costau Byw 28

Bwrsariaethau ac ysgoloriaethau 28

Cyllid a grantiau gan elusennau 28

Myfyrwyr anabl 28

Rhieni ifainc neu unig rieni 29

Myfyrwyr rhyngwladol 29

Cymorth ariannol oddi wrth awdurdodau lleol 29

Bwrsariaeth Addysg Uwch i Bobl sy'n Gadael Gofal 29

Adnoddau'r We: Cyllidebau myfyrwyr 29

Lletyau 30

Darpariaeth Technoleg Gwybodaeth 30

Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig – Nodyn i ofalwyr maeth 31

Adnoddau'r We: Hawliau Plant a Phobl Ifanc 32

Pennod Saith: Helpu pobl ifanc i ymchwilio opsiynau Addysg Uwch 33

Adnoddau'r We: Dewisiadau o ran prifysgolion a chyrsiau 35

Gwasanaethau allgymorth prifysgolion 36

Diwrnodau Agored Prifysgol 36

Sut i fanteisio hyd yr eithaf ar Ddiwrnod Agored Prifysgol 00
- canllaw gofalwr maeth 37

Pennod Wyth: Proses ymgeisio UCAS 39

Nodiadau yn y dyddiadur ar gyfer proses ymgeisio UCAS 41

Y NAW cam tuag at wneud cais i UCAS (Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau) 42

1. Amseriad 42
2. Cwblhau'r ffurflen gais 42
3. Y Datganiad Personol 43
4. Y broses o lunio penderfyniadau 44
5. Unwaith y caiff cynigion eu derbyn 45
6. Cyflawni canlyniadau arholiad gwell na'r disgwyl 45
7. Os nad yw cynnig wedi'i wneud 45

8. Y System Glirio 45
9. Mynediad gohiriedig 45

Pennod Naw: Cefnogi pobl ifanc sy'n dechrau mewn prifysgol 46

Cefnogi person ifanc sy'n dechrau yn y brifysgol – canllaw gofalwr maeth 49

Pennod Deg: Ysbrydoli a chymorth pobl ifanc dan ofal i fynd i brifysgol – Y Deg o Hanfodion 52

Ysbrydoli a chymorth pobl sy'n gadael gofal i fynd i Addysg Uwch - Y Deg o Hanfodion 53

Pennod Un ar ddeg: Casgliad 54

Casgliad 55

Pennod Deuddeg: Adnoddau Ategol 56

Llinell Maethu Cymru 57
Siop Gyhoeddiadau Y Rhwydwaith Maethu 57
Rhifyn Arbennig o *Ffynnu*: Mynd i Brifysgol 57
Pecyn Cymorth Addysg Ar-lein Rhwydwaith Maethu Cymru 57
Canllaw Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar gyfer pobl ifanc dan ofal ac yn gadael gofal yng Nghymru: Gwybodaeth ar gyfer 2011/2012 58
My Planner 58
By Degrees: From Care to University 58
Maethu llwyddiant Addysg Uwch yng Nghymru; adroddiad o farn Gofalwr Maeth am gymorth plant mewn addysg 58

Cyfeiriadau 59

Ynglŷn â'r Canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer gofalwyr maeth sydd mewn sefyllfa i gefnogi ac i annog person ifanc dan ofal sy'n meddwl am ymgeisio, neu sydd wedi ymgeisio'n ddiweddar, i astudio mewn prifysgol.

Mae'r canllaw yn darparu gwybodaeth ymarferol ac arweiniad, yn cynnwys gwybodaeth am gymwysterau, dewis y cwrs cywir, proses ymgeisio UCAS, yn ogystal â chymorth ariannol, emosiynol a chyffredinol. Mae'r canllaw hefyd yn amlinellu'r gefnogaeth i bobl sy'n gadael gofal sydd ar gael oddi wrth bob prifysgol yng Nghymru, a dolenni i adnoddau a gwefannau sy'n rhoi manylion mwy o wybodaeth am fywyd myfyrwyr.

Fe fydd y canllaw hwn yn galluogi gofalwyr maeth i ddarparu'r lefel o gefnogaeth ac arweiniad y byddai ar unrhyw riant da eisiau i unrhyw blentyn - yn eu helpu nhw i fod yn hapus, i gyflawni llwyddiant addysgiadol ac i ddatblygu i fod yn oedolion llwyddiannus.

Er bod y canllaw hwn yn canolbwyntio ar fynediad i Addysg Uwch, mae rhywfaint o'r wybodaeth yr un mor berthnasol i bobl ifanc sy'n astudio Addysg Bellach. Fe fydd ar bobl sy'n gadael gofal bob amser angen cefnogaeth eu gofalwr maeth, ni waeth pa gymhwyster maen' nhw'n astudio ar ei gyfer, neu'n gweithio tuag ato.

Fe obeithir fod y canllaw hwn yn ysbrydoli gofalwyr maeth i fod yn uchelgeisiol dros y plant maent yn gofalu amdanynt, ac i'r plant eu hunain gredu y gallant gael uchelgais a chyflawni. Ni ddylai bod dan ofal fod yn rhwystr rhag mynd i brifysgol.

Nodwch, os gwelwch yn dda

Mae Addysg Uwch yn esblygu'n gyson. Mae'r Rhwydwaith Maethu wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a gyhoeddir yn y canllaw hwn yn gywir. Fodd bynnag, ni allwn dderbyn unrhyw atebolrwydd am gywirdeb na chynnwys, nac am newidiadau a wnaed gan ddarparwyr addysg uwch. Y ffynonellau gorau o'r wybodaeth fwyaf cyfoes yw'r prifysgolion eu hunain. Cyfeiriwch, os gwelwch yn dda, at y cysylltiadau a restrir ar dudalen 23 a 24.

Pennod Un

Cefndir a Rhagymadrodd

1

Cefndir a Rhagymadrodd

Fe all dewis astudio ar gyfer Gradd fod yn benderfyniad mawr gyda chymaint o leoedd, cyrsiau a ffyrdd o astudio. Fe all fod yn orlethol, yn enwedig os ydych chi'n cymorth person sy'n gadael gofal i fynd i brifysgol. Mae pobl sy'n gadael gofal yn profi heriau ychwanegol ar adeg gadael gofal lle y bydd pobl ifanc eraill yn parhau i ddibynnu ar eu rhieni am gefnogaeth ymarferol gyda'r fath bethau â bod yn warantwyr ar gyfer llety, cydategu cyllideb y myfyriwr neu hyd yn oed roi cymhorthdal ar gyfer y siopa wythnosol.

Ond yn bwysicach, nid oes gan bobl sy'n gadael gofal fel arfer yr elfen hanfodol o sefydlogrwydd pan fo cymaint o bethau mewn stad o newid – annibyniaeth newydd ei ganfod, cyfeillion newydd a lle newydd i fyw. Fel gofalwr maeth, mae gennych ran bwysig a hanfodol i chwarae mewn darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol yn y pontio o ofal maeth i fywyd prifysgol. Mae Gail Duffy, gofalwr maeth, yn dweud: 'Mae gwneud ymrwymiad hirdymor i berson ifanc wedi iddynt adael gofal yn dweud wrthyn' nhw eu bod wedi bod yn fwy na phlentyn wedi'i faethu a bod gen i ddiddordeb yn eu dyfodol.'

Pobl ifanc yn gadael gofal yw un o'r grwpiau sy'n cael eu cynrychioli leiaf mewn addysg bellach ac addysg uwch yn y Deyrnas Unedig. Heb gefnogaeth teulu, ac yn aml yn gorfod ymladd i ganfod digon o arian a lle i fyw, mae mynd i mewn i a llwyddo mewn addysg yn wir gyflawniad.

Nid oes yna ystadegau swyddogol yn cael eu cadw ar fynd i mewn i brifysgolion ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, ond mae'n cael ei amcangyfrif mai yn y Deyrnas Unedig, dim ond un i ddau y cant o bobl sy'n gadael gofal sy'n mynd i addysg uwch, o gymharu â 43 y cant o'r holl bobl ifanc (Jackson ac eraill, 2006: Y Swyddfa dros Fynediad Teg, 2006). Yng Nghymru, mae Cyfarwyddiaeth Ystadegau Llywodraeth Cymru yn datgan bod 7 y cant o bobl sy'n gadael gofal sy'n 19 oed mewn addysg uwch lawn amser yn 2011. Nid yw'r ystadegau hyn yn syndod o ystyried bod person 18 mlwydd oed sy'n gadael gofal yn debygol o fod yn delio gydag aflonyddwch emosiynol ac ymarferol sylweddol, fel maent yn dysgu ymdopi ym myd yr oedolion heb y ddiogelwch gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae tystiolaeth oddi wrth brosiect ymchwil *By Degrees* (2005) yn awgrymu y gall gofalwyr maeth fod yn adnodd allweddol ar gyfer ehangu cyfranogiad a chreu cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal - grŵp sydd yn draddodiadol wedi'i allgau'n addysgol ac yn gymdeithasol.

Mae'r arweiniad mae gofalwyr maeth yn ei ddarparu i blant a phobl ifanc dan ofal ym mhob cyfnod o'u haddysg yn amhrisiadwy i'w cyraeddiadau academaidd yn y pen draw a'u deilliannau hirdymor. Mae Goddard (2010) yn atgyfnerthu rôl y gofalwr maeth: 'Y nhw yw'r rhai a all roi cefnogaeth gartref ac anfon person ifanc wedi'i baratoi yn ymarferol ac wedi'i gyfarparu'n seicolegol ar gyfer bywyd myfyriwr.'

> **Fe ddylid gweld gofal maeth fel rhan annatod o'r gyfundrefn addysg, cyn bwysiced â'r ysgol, os nad yn bwysicach, o ran galluogi plant i lenwi'r bylchau a achoswyd gan bresenoldeb afreolaidd a diffyg symbyliad yn eu blynyddoedd cynnar.**
>
> **Fe all teuluoedd maeth chwarae rhan hanfodol mewn codi dyheadau, gan alluogi pobl ifanc i gyflawni'r cymwysterau mae arnynt eu hangen i gael at addysg bellach ac addysg uwch a'u cymorth nhw drwy'u cyrsiau Gradd.**
>
> Jackson (2005)

Gofalwyr maeth yw'r allwedd i sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal yn cyflawni'u potensial. Nid yw'n syndod bod Jackson a chydweithwyr (2005) wedi canfod pobl ifanc yn y brifysgol sydd wedi tyfu i fyny dan ofal maeth yn adrodd mai'u lleoliad gyda gofalwyr maeth a oedd ag ymrwymiad cryf i gefnogi addysg oedd y ffactor allweddol yn eu llwyddiant addysgol. Fe fydd y gofalwyr maeth gorau yn uchelgeisiol dros y plant maent yn eu maethu. Fe wnânt annog a chefnogi'u plant maeth i wneud yn dda yn yr ysgol, mynychu seremonïau ysgol a nosweithiau rhieni, eiriol lle y bo angen dros y plentyn, trefnu cefnogaeth atodol, helpu'n briodol gyda gwaith cartref, darparu adnoddau addysg cartref angenrheidiol ac ymgysylltu â staff cymorth eraill, fel y bo'r angen.

> **Pan ddywedodd fy ngofalwyr maeth, Julie a Richard, "Mae'n rhaid iti fynd i brifysgol," nid oeddwn i'n credu'i fod o'n ddigon da,' medd Emma. 'Ni chafodd o erioed ei drafod fel opsiwn o'r blaen. Pan oeddwn yn 15, 'roedd gen i'r holl syniadau gwych hyn ond fe ddywedodd y gweithwyr cymdeithasol, "'Rydych yn filiwn o filltiroedd i ffwrdd o fynd i'r brifysgol."**
>
> Dyfynnwyd gan Newmark (2010)
> 'Reach for the Sky',
> *Foster Care, rhifyn.142*

I lawer o bobl ifanc dan ofal, mae'n cymryd ond un person i gredu ynddynt. Nid yw'n cymryd llawer i blentyn sy'n derbyn gofal neu berson sydd wedi gadael gofal gredu'u bod wedi'u tynghedu i fethu oherwydd y bydd y rhan fwyaf o bobl maent yn dod ar eu traws yn disgwyl iddynt fethu. Fodd bynnag, y cyfan mae o'n ei gymryd yw i un person dreulio'r amser, credu ynddynt a'u hannog nhw i lwyddo ac i gyflawni mewn bywyd. Hon yw un o'r swyddogaethau pwysicaf o fod yn ofalwr maeth.

> Mae plant wedi'u maethu'n cael llawer o bethau negyddol yn yr ysgol. Mae'n rhaid ichi wrthddadlau hynny. Mae'n rhaid ichi dorri'r cylch o fethiant a'u helpu nhw i gyflawni'u potensial. Fe allan' nhw oresgyn beth mae bywyd wedi'i daflu atynt.
>
> Julie, Gofalwr Maeth

Fel dylanwadwr allweddol ym mywydau pobl ifanc, mae gofalwyr maeth yn chwarae rhan fawr yn y broses o lunio penderfyniadau, ynghyd ag athrawon, cynghorwyr a'u cydweithwyr. Fe allai addysg uwch ymddangos yn syniad bendigedig neu'n obaith ofer i rai pobl ifanc dan ofal maeth. Mae'n anodd annog a chefnogi pobl ifanc dan ofal i feddwl am eu dyfodol ac i wneud cynlluniau. Weithiau, problem sylfaenol yw eu bod yn credu nad oes yna ddiben mewn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Eu gwneud nhw gredu y gallant newid eu dyfodol ddylai'r cam cyntaf fod, a gyda'ch cymorth chi, fe all ddigwydd.

Y peth pwysicaf y gall gofalwr maeth ei wneud yw bod yn gadarnhaol yn barhaus am yr holl gysyniad o addysg uwch. Fe all mynychu prifysgol fod yn un o'r amseroedd mwyaf pleserus a gwerth chweil o fywyd plentyn maeth, gan roi holl ystod o brofiadau iddyn' nhw a chyfeillgarwch gydol oes na fyddent wedi'u cael fel arall.

Nid yw paratoi ar gyfer prifysgol yn digwydd dros nos. Mae'r sgiliau sy'n cyfarparu myfyrwyr ar gyfer bywyd prifysgol yn aml yn cael eu dysgu drwy brofiadau cynnar gartref ac mewn addysg.

Rhestr wirio ar gyfer ysbrydoli a chymorth addysg plentyn sy'n derbyn gofal

Fel gofalwr maeth, a ydych chi'n....

- ✓ Eu trin nhw fel un o'r teulu am gyhyd ag mae arnynt eisiau ac nid ond tan y byddant yn gadael gofal?
- ✓ Credu y gall plant a phobl ifanc dan ofal gael dyfodol gwych ac y gallwch roi dyheadau iddyn' nhw o oedran ifanc?
- ✓ Fe all prifysgol fod yn bosibilrwydd realistig i blant dan ofal - ond dim ond os dechreuir ei drafod o oedran ifanc?
- ✓ Ymrwymo'ch hun i helpu plant dan ofal i lwyddo?
- ✓ Credu y gall addysg agor drysau, cynyddu dewisiadau a rhoi mwy o gyfle o fywyd hapus ac iach fel oedolyn?
- ✓ Deall y gyfundrefn addysg a sut i gael y gorau allan ohono i blant a phobl ifanc dan ofal?
- ✓ Eiriol dros blant a phobl ifanc dan ofal, gan sicrhau bod eu hanghenion a'u hawliau fel plant yn cael eu diwallu?
- ✓ Darparu cefnogaeth, deunyddiau a lleoedd tawel ar gyfer dysgu a gwaith cartref gartref? Cymryd amser i helpu gyda gwaith cartref a thrafod y diwrnod ysgol?
- ✓ Annog a hwyluso cyfranogiad mewn tripiau a gweithgareddau ysgol?
- ✓ Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer dysgu y tu allan i'r ysgol lle y gall plant ddatblygu'u hunan-barch a hyder. Mae cymwysterau addysgol yn hanfodol ar gyfer prifysgol ond mae hi'r un mor bwysig i bobl ifanc fod yn gallu dangos profiadau dysgu eraill pan ddaw hi'n fater o wneud y cais i fynd i'r brifysgol?
- ✓ Mynychu seremonïau ysgol a nosweithiau rhieni?
- ✓ Dathlu a rhannu cyflawniadau'r plentyn?

Astudiaethau achos: Y gwahaniaeth y mae gofalwyr maeth yn ei wneud

Mae Steven yn mynd i astudio cyfrifiadureg fforensig ym Mhrifysgol Morgannwg.

'Rwyf wedi bod gyda Jacqui am naw mlynedd. Fe arferwn ond mynd i'r ysgol am y pêl-droed ond 'roeddwn yn hoffi technoleg gwybodaeth. 'Roedd gen i lawer o gyfeillion, fe gefais adroddiadau gwael ac y fi oedd clown y dosbarth – fe wnaeth Jacqui yn aml draethu wrthyf. Ond fe aeth i gyfarfodydd gyda mi, siarad gyda'r gweithwyr cymdeithasol a'r athrawon, ac fe ddywedodd wrthyf fod gen i allu academaidd.'

'Fe gefais C mewn Mathemateg TGAU, er na wnes roi fy ngwaith cwrs i mewn. 'Roedd arnaf bob amser eisiau mynd i brifysgol. 'Roeddwn wedi mwynhau cyfrifiaduron yn yr ysgol ond 'roedd gwneud BTech mewn Technoleg Gwybodaeth yn y coleg yn lefel arall. Mae fforensig cyfrifiadurol yn eithriadol o ddiddorol - 'rydych yn dadansoddi cronfeydd data cyfrifiaduron mewn ymchwiliadau'r heddlu. 'Rwyf yn edrych ymlaen at brifysgol, ac fe wnaf fwy na thebyg fynd ymlaen i wneud Gradd Meistr ac ymuno â'r heddlu. I hynny mae'r Radd hon yn arwain.'

'Dwi ddim yn gweld fy mam fiolegol o gwbl ond fe wnaeth Jacqui fy helpu i ganolbwyntio ar fy ngraddau a gyda'r cyllid, fel fy mod yn gallu aros gyda nhw dros y gwyliau.'

Mae gan Cheryl Radd mewn astudiaethau hanesyddol o Brifysgol Glasgow ac mae hi'n gweithio yn y diwydiant arian.

'Fe arhosais gyda Linda a Dave am y rhan fwyaf o'r amser rhwng 15 a 18. 'Roedd Linda a Dave bob amser yn helpu. Fe wnaethant roi amser imi gwblhau fy ngwaith cartref, fe wnaethant gymryd diddordeb yn yr ysgol ac fe aethant i gyfarfodydd rhieni.

'Nid oedd o i gyd yn hawdd ac yn rhwydd. Nid ydych yn gwir wybod pwy ydych chi pan ydych yn mynd i brifysgol.'

'Fe wnes gwblhau fy Ngradd fel fy mod wedi cael swydd dda yn y swyddfa gefn mewn banc. 'Rwyf ar fin prynu tŷ, gobeithio. 'Rwyf yn dal mewn cysylltiad â Linda a Dave. Maen' nhw bob amser wedi bod ar ben arall i'r ffôn i fy helpu i, pe bae fy arian yn darfod neu os na wyddwn beth i wneud.'

Mae Emma yn cwblhau cwrs hyfforddi athrawon, o fod wedi ennill Gradd mewn seicoleg fiolegol a biofeddygol o Brifysgol Fetropolitan Manceinion.

'Roeddwn yn 15 pan es i at Julie a Richard. I ddechrau, 'roeddwn yn ei gasáu o. 'Roeddwn yn credu eu bod yn wirioneddol llym. 'Roedd o'n sefydlog iawn ond ni wnes ei werthfawrogi o tan yn ddiweddarach. 'Roeddwn i mor gythryblus. Fe lithrais o'r ffrydiau uchaf i isaf yn yr ysgol. 'Roeddwn wedi cael problemau meddygol, nid oeddwn yn hoffi fy hun. Fe wnaethant fynd â fi allan a phrynu gwerth £100 o ddillad newydd imi, talu imi gael torri fy ngwallt, trefnu sylw meddygol. Fe wnaethant imi roi colur arnaf bob diwrnod.

Dyna oedd ffordd Julie o fy helpu i hoffi fy hun ac i ofalu amdanaf fy hun.'

'Mae Julie yn wastad wedi bod yno imi fel cymorth ymarferol. Fe gafodd hi diwtor Mathemateg imi, ac os na fuaswn wedi cael C yn TGAU, ni allwn fod yn athrawes yn awr. Fe wna Richard bob amser fy nhawelu i. 'Rwyf i fyny at fy llygaid mewn gwaith yn awr, ac er fy mod wrth fy modd gyda fo, fe fyddaf dan straen ac fe wnaf eu ffonio nhw ac fe wnânt fy helpu i wneud trefn arnaf fy hun'.

Newmark, V. (2010), "Reach for the Sky",
Foster Care, rhifyn.142. Y Rhwydwaith Maethu

Pennod Dau

Addysg Uwch wedi'i hegluro

2

Addysg Uwch wedi'i hegluro

Buddion Addysg Uwch

Fe all ennill Gradd gynyddu a gwella'n sylweddol ragolygon gyrfa person ifanc. Fe fydd ganddynt nid yn unig amrywiaeth ehangach o opsiynau gyrfa i ddewis oddi wrthynt, unwaith mae ganddynt Radd, ond maent hefyd yn debygol o fynd ymlaen yn llawer cyflymach i fyny'r ysgol gyrfa. Er y byddai'n anghywir honni bod Gradd yn gwarantu cyflogaeth, mae nifer cynyddol o sefydliadau yn mynnu bod pobl yn meddu ar Radd cyn ymgeisio. Fe all graddedigion ennill, ar gyfartaledd, 20% yn fwy dros eu hoes (i ferched, mae'n codi i 40%). Mae pob cwrs, beth bynnag y bo'r pwnc, yn cynnig sgiliau trosglwyddadwy, rheoli amser, y gallu i ysgrifennu'n eglur, gwaith tîm a sgiliau cyflwyno. Fe fydd rhai, er enghraifft, addysgu, nyrsio, a phensaernïaeth, yn arwain yn uniongyrchol at broffesiwn.

Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn credu bod mynd i brifysgol hyd yn oed yn bwysicach ar gyfer datblygiad personol; er enghraifft, yn aml y cyfeillgarwch sy'n cael eu gwneud mewn prifysgol yw'r rhai sy'n para am oes. Mae'n gyfle i gyfarfod â phobl newydd o lawer o wahanol ac amrywiol gefndiroedd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a phersonol.

Yn bwysicach i bobl sy'n gadael gofal, mae bywyd prifysgol yn gyfle iddynt ganfod eu traed eu hunain y tu hwnt i fod dan ofal maeth, a datblygu'u hunaniaeth eu hunain heb y label o fod wedi bod dan ofal. Mae Goddard (2010) yn dadlau mai prifysgolion yw'r atebion gorau i'r problemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth adael gofal. Mae o'n dadlau eu bod yn rhoi cyfle iddyn' nhw ailddyfeisio'u hunain a 'chymryd seibiant'.

> **Fodd bynnag, fe ddywedodd y mwyafrif o gyfranogwyr, gan edrych yn ôl dros eu profiad yn y brifysgol, eu bod wedi'i lwyr fwynhau o ac wedi dysgu llawer iawn. 'Roeddynt yn teimlo ei fod o wedi rhoi cyfle iddynt aeddfedu ac ennill sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd yn raddol yn hytrach na chael eu hyrddio i fywyd oedolyn fel y rhan fwyaf o bobl sy'n gadael gofal.**
>
> Ajayi, Jackson, and Quigley (2005)

Diffiniad o Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Oherwydd y llawer o newidiadau yn y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys sefydliadau'n newid eu henwau a'u teitlau, mae llawer mewn dryswch ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Dyma ddiffiniad cryno:

- **Addysg Bellach (AB neu 'FE' yn y Saesneg)**
  Mae Addysg Bellach yn addysg ôl-orfodol i bobl dros 16 oed nad yw'n digwydd mewn ysgol uwchradd. Fe all cymwysterau fod naill ai'n academaidd neu'n alwedigaethol, yn dibynnu ar eu nod. I astudio cymhwyster Lefel 3, mae arnoch fel arfer angen cael cymhwyster Lefel 2 – TGAUau, BTEC Tystysgrif/Diploma Cyntaf, Prentisiaeth neu NVQ 2.
- **Addysg Uwch (AU neu 'HE' yn y Saesneg)**
  Addysg Uwch yw'r enw a roddir i addysg y tu hwnt i Addysg Bellach. Mae cymwysterau Addysg Uwch yn cynnwys cyrsiau gradd, cyrsiau ôl-raddedig a Diplomâu Cenedlaethol Uwch. Fe allwch astudio ar gyfer y cymwysterau hyn mewn prifysgolion a cholegau, drwy ddysgu o bell neu golegau arbenigol. Mae arnoch fel arfer angen cymhwyster Lefel 3 i fynd ymlaen i Addysg Uwch. Fodd bynnag, mae yna lawer o lwybrau i AU, nid dim ond drwy Safon Uwch.

Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De Orllewin Cymru (2011)

Diffiniad o Radd a'i dosbarthiadau

Mae Gradd yn gwrs sy'n cael ei astudio ac i gymhwyso amdano mewn prifysgol. Mae yna ddau fath - Gradd Sylfaen neu Radd Baglor. Fe all y ddau hefyd ddynodi'r union bwnc, e.e. mae FDEng yn Radd Sylfaen mewn Peirianneg tra bod BEng yn Radd Baglor. Mae Graddau Sylfaen yn pontio'r bwlch rhwng cyflogaeth ac astudio ac mae ganddynt ffocws cryf ar ddatblygu sgiliau gwaith. Mae'r cymwysterau mynediad yn llai na Gradd Baglor. Nid oes yna ddosbarthiadau gyda Graddau Sylfaen tra bydd Gradd Baglor yn dangos dosbarth fel 1 (dosbarth cyntaf), 2.1, 2.2 neu 3 (trydydd), yn dibynnu ar y marciau. Mae'r marciau sydd eu hangen ar gyfer pob un yn amrywio rhwng prifysgolion ond fe fydd israddedigion (person israddedig yw myfyriwr coleg neu brifysgol nad ydi o eto wedi derbyn Gradd Baglor neu Radd debyg) yn cael eu hysbysu am y cynlluniau marcio a beth maen' nhw'n debygol o gyflawni bob blwyddyn.

Gofynion mynediad i Addysg Uwch i Israddedigion

Pan fo person ifanc yn dewis opsiynau addysg yn 16, mae'n bwysig canfod pa gymwysterau a graddau mae'n debygol y bydd arnynt eu hangen ar gyfer y math o gwrs addysg uwch mae arnynt eisiau'i astudio.

Mae yna lawer o wahanol lwybrau addysgol i mewn i brifysgol ond TGAUau a Safon Uwch yw'r mwyaf cyffredin. Mae pynciau TGAU yn cael eu dewis yn ystod Blwyddyn Naw yn yr ysgol, ac fe fydd ar bobl ifanc angen cymorth i wneud y dewisiadau gorau iddynt. Mae ar gyrsiau TGAU angen gwaith cwrs, ac mae yna botensial i'r gwaith hwn gael ei golli os yw'r person ifanc dan ofal yn cael ei symud rhwng lleoliadau. Fe allwch helpu drwy sicrhau bod

unrhyw waith cwrs yn cael ei storio'n ddiogel, ar yriant caled allanol neu ar 'gwmwl' (storio ffeiliau TG o bell), er enghraifft.

Mae prifysgolion a cholegau yn gosod eu gofynion mynediad eu hunain ar gyfer cyrsiau addysg uwch, ac felly maent yn amrywio'n eang. Yn dibynnu ar y cwrs, fe all myfyrwyr y Deyrnas Unedig fedru mynd i addysg uwch gydag ystod o gymwysterau, a all gynnwys:

- TGAUau.
- TAGau.
- Safon Uwch.
- Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs).
- Tystysgrifau a Diplomâu Cenedlaethol BTEC.
- Cymwysterau Sgiliau Allweddol.
- Cymwysterau Diploma Uwch.
- Bagloriaeth Ryngwladol.
- Cyrsiau Mynediad.
- HNC/HND (Tystysgrif Genedlaethol Uwch a Diploma Genedlaethol Uwch).
- DipHE (Diploma Addysg Uwch).
- Cyrsiau Sylfaen a Mynediad.
- Cymwysterau arbenigol a phroffesiynol eraill.

Mae llawer o blant dan ofal wedi profi addysg wedi'i aflonyddu ac fe all rhai fod hyd yn oed yn ddechreuwyr hwyr. Nid oes yna reol bod yn rhaid i berson ifanc sefyll arholiadau ar oedran neilltuol, ac felly mae'n bosibl iddynt sefyll arholiadau yn ddiweddarach a chymhwyso ar gyfer addysg uwch.

> **Mae'n bwysig cofio nad oes yna lwybr penodol i addysg – ac nid oes yn rhaid ichi gael yr holl atebion yn syth yn awr. Fel person sy'n gadael gofal, fe allai fod gennych eto'r hawl i gymorth tan 'rydych yn cyrraedd 25. Mae llawer o bobl yn gwneud y penderfyniad i ddychwelyd i addysg ar bob adegau o fywyd ac am bob mathau o resymau. Sut bynnag mae'ch taith wedi bod, mae yna yn wastad ffordd i ddychwelyd i addysg.**
>
> The Who Cares Trust (2012)

Mae gofynion mynediad yn cael eu rhestru ar wefan UCAS ym mhroffil mynediad pob un cwrs addysg uwch - ewch i **www.ucas.ac.uk/students/coursesearch** am fwy o wybodaeth. Gwiriwch y gofynion mynediad cyn bod y person ifanc yn dechrau'u proses o ymgeisio i'r brifysgol fel eu bod yn gwybod beth i ddisgwyl.

Y Brifysgol Agored

Mae'r Brifysgol Agored yn aml yn opsiwn gwych ar gyfer pobl hŷn sy'n gadael gofal, a allai fod ag ymrwymiadau eraill fel swydd lawn neu ran amser a/neu blant dibynnol.

Os oes ganddynt waith, fe allant wneud hyn ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Ac nid oes gan y Brifysgol Agored unrhyw ofynion mynediad, ac felly nid oes arnynt angen gofidio y gallent gael eu gwrthod.

Fe allwch ganfod mwy am gyfleoedd yn y Brifysgol Agored yn:
www.open.ac.uk/study/ neu ffoniwch: **029 2047 1170**

Pennod Tri

Y ffordd i brifysgol

3

Y ffordd i brifysgol

Opsiynau gyrfa yn 16 mlwydd oed

Mae addysg uwch ond yn un o'r llawer o opsiynau sydd ar gael. Fe all opsiynau eraill gynnwys aros ymlaen yn yr ysgol; coleg chweched dosbarth; addysg bellach; dysgu'n seiliedig ar waith neu gael swydd. Nid oes yn rhaid i'r person ifanc wneud dewisiadau gyrfa ar eu pennau'u hunain. Am fwy o wybodaeth am y dewisiadau a'r opsiynau yn 16, anogwch y person ifanc i siarad gyda chynghorydd gyrfaoedd ac ewch i **www.careerswales.com**.

Mae'n helpu'n enfawr i berson ifanc fod wedi gweld cynghorydd gyrfaoedd proffesiynol ar ryw adeg yn arwain at benderfyniad fel y gall eu syniadau nhw'u hunain a dewisiadau posib' ar gyfer llwybr addysg a gyrfa yn y pen draw gael eu trafod yn ddiduedd. Fe fyddai hefyd yn eich helpu i gael golwg ar ganlyniad y drafodaeth honno ar ffurf cynllun gweithredu, a fyddai wedi cael ei lunio yn y cyfweliad.

Fel gofalwr maeth, ni ddisgwylir ichi fod yn gynghorydd gyrfaoedd ond fe fyddai'n helpu'n aruthrol os gwnewch archwilio a thrafod drwy'r opsiynau gyda'r person ifanc a chanfod cymaint â phosibl o wybodaeth.

Pwysigrwydd y Cynllun Llwybr

> **Yn syth o'r dechrau, mae'n Cynlluniau Llwybr wedi canolbwyntio ar brifysgol....fe ddywedwyd wrthym yn wastad am y gefnogaeth sydd ar gael. Mae pawb – ein gweithwyr cymdeithasol, y tîm gdael gofal – wedi bod y tu cefn i'n breuddwyd.**
>
> Tim, person sydd wedi gadael gofal a pherson israddedig, a gyfwelwyd gan yr Who Cares Trust (2011)

I bobl ifanc dan ofal, mae blaengynllunio yn eithriadol o bwysig. Fe ddylai manylion eu llwybr dewisedig gael eu cofnodi yn y Cynllun Addysg Personol (PEP) a'r Cynllun Llwybr (16 a throsodd) dilynol. Os yw person ifanc wedi'i faethu yn meddwl am fynd i goleg (Addysg Bellach) neu brifysgol (Addysg Uwch), gwnewch yn sicr bod hyn yn cael ei nodi yn y ddau gynllun. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau'u bod yn cael cyllid a chefnogaeth. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i gymorth pobl ifanc i wneud y pontio o ofal i oedolaeth.

Mae'r Cynllun Llwybr yn nodi'r gweithgareddau a'r gefnogaeth i unrhyw berson ifanc sy'n derbyn gofal sy'n bwriadu symud i fyw'n annibynnol, ac mae o wedi'i seilio ar eu cynllun gofal. Mae'n ddogfen a luniwyd gan yr awdurdod lleol cyfrifol, ynghyd â'r person ifanc, yn

nodi'r dull mae'r awdurdod lleol yn ei gynnig i ddiwallu anghenion y person ifanc. Mae ar y Cynllun Llwybr angen bod yn un i ymgyrraedd ato ac yn un sy'n cael ei arwain gan y person ifanc er mwyn sicrhau'i fod yn parhau yn berthnasol ac yn canolbwyntio ar gyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer y person ifanc dros amser.

> Yn fy mhrofiad i, mae'r pontio i brifysgol i bobl sy'n gadael gofal gyda Chynllun Llwybr manwl yn llawer gwell nag i'r sawl nad oes ganddynt un. Yn ddelfrydol, fe ddylai Cynllun Llwybr gynnwys pa gymorth ariannol y bydd yr Awdurdod Lleol yn ei ddarparu ar gyfer hyd y cwrs, eu hopsiynau lletya yn ystod y gwyliau ac unrhyw anghenion cymorth eraill. Drwy drafod y materion hyn a'u cael nhw yn y Cynllun Llwybr, mae'r person ifanc yn gwybod lle maent yn sefyll cyn iddynt ddechrau'u cwrs, ac fe allant gynllunio'n well ar gyfer eu dyfodol.
>
> **Einir Evans**
> Swyddog Cymorth i Fyfyrwyr,
> Prifysgol Caerdydd

Fe ddylai fod gan ofalwyr maeth hefyd wybodaeth ysgrifenedig am y goblygiadau ariannol iddynt eu hunain a'r trefniant gadael gofal.

Rôl y Cynghorydd Personol

Cynghorydd Personol yw'r person sy'n cael ei benodi gan yr awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer goruchwylio'r Cynllun Llwybr a sicrhau bod y person ifanc yn derbyn y gefnogaeth mae ganddo ef neu ganddi hi'r hawl iddi mewn ffordd gydgysylltiedig a hygyrch. Y nhw fydd y prif fan cyswllt rhwng person ifanc a'i awdurdod lleol cyfrifol ef neu hi. Fe fydd y cynghorydd personol yn gweithredu fel mentor i'r person ifanc ac fe fydd yn cymryd camau i gyflawni cydbwysedd priodol o ran beth mae ar y person ifanc eisiau a beth y disgwylid i riant da ei wneud. Mae'r trefniadau estynedig yn sicrhau bod pobl ifanc sy'n byw dan ofal ac yn gadael gofal yn gallu uniaethu gyda rhywun sy'n ymrwymedig i'w lles a'u datblygiad parhaus ar sail hirdymor.

Mynediad gohiriedig – Cymryd Blwyddyn i Ffwrdd

Fe all person sy'n gadael gofal ddewis gohirio mynediad i brifysgol a chymryd blwyddyn i ffwrdd wedi iddynt adael ysgol a chyn eu bod yn dechrau addysg uwch. Fe all blwyddyn i ffwrdd fod yn gyfle gwych iddyn' nhw gael seibiant o'r byd addysg, ennill arian, ennill profiad gwerthfawr, cyfarfod â phobl newydd, ennill annibyniaeth a dysgu sgiliau newydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod ganddynt nod, yn hytrach nag ond cymryd blwyddyn i ffwrdd i wneud dim byd yn hollol ddi-nod. Mae'n werth nodi bod hi'n amgenach gan rai adrannau (Mathemateg a Chemeg yn bennaf) i fyfyrwyr fynd i brifysgol yn syth ar ôl Safon Uwch. Mae'n bwysig holi am hyn yn ystod diwrnodau agored prifysgolion.

Mewn rhai achosion, efallai bod y person ifanc yn wreiddiol wedi bwriadu parhau yn syth i addysg uwch, ond ar ôl sefyll arholiadau fe fyddai'n hoffi cymryd blwyddyn i ffwrdd. Yn y sefyllfa hon, mae ganddynt ddau opsiwn. Yn gyntaf, fe ddylent gysylltu â'r tiwtor

derbyniadau a chanfod a yw hi'n bosibl gohirio'u mynediad tan y flwyddyn academaidd nesaf, gan ddarparu cyfiawnhad yn ymwneud â'r cwrs, lle y bo'n bosibl. Os nad yw hyn yn opsiwn, fe allant dynnu'u cais yn ôl ac ymgeisio eto drwy UCAS y flwyddyn wedyn - fe ddylid ystyried hyn o ddifri', gan nad oes yna sicrwydd y gwnânt dderbyn yr un un cynigion.

Mae prifysgolion, colegau a chyflogwyr y dyfodol yn cefnogi blynyddoedd i ffwrdd, gan eu bod yn gweld y gwerth pan fo myfyrwyr yn tyfu mewn hyder, gan fod ag agwedd aeddfetach ac yn meddu ar fwy o ffocws pan fyddant yn dychwelyd at eu hastudiaethau. Mae myfyrwyr blwyddyn i ffwrdd fel arfer yn fwy eangfrydig a hyderus, gan eu bod wedi gwneud y penderfyniad i wneud rhywbeth gwahanol, darganfod llawer amdanynt eu hunain ac wynebu heriau newydd. Mae myfyrwyr blwyddyn i ffwrdd fel arfer wedi treulio rhywfaint o amser i ffwrdd o'u cartref, ac felly maent yn fwy annibynnol ac maent wedi arfer â thrin arian.

Os yw person ifanc yn bwriadu cymryd blwyddyn i ffwrdd, fe ddylent amlinellu'u cynllun yn eu datganiad personol i UCAS wrth wneud eu cais. Mae'n bwysig bod y person ifanc yn sicrhau'i le yn y brifysgol cyn ei fod yn dechrau ar eu blwyddyn i ffwrdd.

Mae yna amrywiol opsiynau yn agored i'r person ifanc. Fwy na thebyg, fe ddylai'r penderfyniad cyntaf fod - a ydynt yn dymuno teithio neu aros yn y Deyrnas Unedig. Fe allant weithio yn y DU am chwe mis i ennill arian i wedyn ariannu chwe mis yn teithio dramor. Neu fe allant ddewis gweithio'u ffordd o amgylch y byd tra eu bod yn mwynhau'r golygfeydd a phrofiadau newydd y bydd hyn yn ei roi.

Mae gofalwyr maeth yn gofyn yn aml beth sy'n digwydd os yw person ifanc dan ofal, 18 oed, yn teithio am gwpwl o flynyddoedd yn gwneud gwaith gwirfoddol dramor (blynyddoedd i ffwrdd) ac yn dychwelyd yn 21 mlwydd oed. A wna'u hawdurdod lleol ddal i dalu drostynt i fynd i brifysgol?

Mae'r gyfraith yn dweud bod ganddynt fel person sy'n gadael gofal 'wedi cymhwyso' hawl i barhau i dderbyn cymorth oddi wrth eu hawdurdod lleol hyd at 25 mlwydd oed. Os ydynt yn dychwelyd yn 21 mlwydd oed, ac yn mynd i brifysgol, yna mae'n rhaid i'w hawdurdod lleol ddweud sut maent yn bwriadu'u cymorth nhw a chynnwys hyn yn eu Cynllun Llwybr. Mae'n rhaid i hyn, mewn unrhyw achos, gynnwys eu bwrsariaeth prifysgol o £2,000 ac unrhyw gymorth ariannol mae arnynt ei angen ar gyfer llety yn ystod amseroedd gwyliau.

Blynyddoedd i ffwrdd

- **www.gapyearjobs.co.uk** sy'n helpu i ganfod y swydd orau ar gyfer y flwyddyn i ffwrdd. Boed o'n anturiaeth, arlwyo, lletygarwch, elusen, hamdden, chwaraeon neu deithio a thwristiaeth.

Work experience / Profiad gwaith

- **www.gowales.co.uk** sy'n cynnig ystod o wasanaethau i helpu myfyrwyr, yn cynnwys lleoliadau gwaith, cyllid ar gyfer hyfforddiant, cronfa ddata ar-lein o swyddi yng Nghymru, a'r Academi Graddedigion.
- **www.volunteering-wales.net** sy'n rhoi manylion cyfleoedd gwirfoddoli lleol.
- **www.unaexchange.org** Mae gan yr elusen hon raglen o gyfleoedd. Fe all gwirfoddolwyr gymryd rhan mewn prosiectau dan arweiniad y gymuned mewn mwy na 40 o wledydd, yn para o bythefnos i ddeuddeng mis. 'Roedd uchafbwyntiau 2011 yn cynnwys prosiectau cadwraeth crwbanod ym Mecsico, gweithgareddau i blant amddifad ym Moldova, a gweithio mewn eco-gaban a fferm organig yn Israel.

Pennod Pedwar

Gwneud dewisiadau

4

Gwneud dewisiadau

Unwaith mae'r person ifanc wedi penderfynu bod arnynt eisiau astudio mewn prifysgol, mae yna gyfres o gamau mae arnynt angen eu cymryd er mwyn dechrau'r broses o ddewis cwrs Gradd a sefydliad addysg..

Fe all y broses ymgeisio ymddangos yn gymhleth, ac felly fe fydd ar y person ifanc angen cymorth ac arweiniad eu gofalwyr maeth. Er mwyn helpu pethau i symud ymlaen yn llyfn, fe ddylech fod yn ymwybodol o'r broses ymgeisio yn ei chyfanrwydd, yn cynnwys y dyddiadau cau ar gyfer y cais i UCAS a chyllid i fyfyrwyr. Mae'n bwysig rhestru dyddiadau allweddol fel ei fod yn wybyddus beth sydd angen ei wneud yn ystod bob tymor ysgol, a sicrhau nad yw'r person ifanc yn methu unrhyw derfynau amser, ac felly'n colli unrhyw gyfleoedd sydd ar gael iddyn' nhw.

Dewis y brifysgol gywir a'r cwrs cywir

Fe all gofalwyr maeth fod â rhan bwysig i chwarae pan ddaw hi'n fater o gymorth dewis a dethol prifysgol. Mae dewis y brifysgol gywir i unigolyn yn bwysig; mae rhai myfyrwyr yn gadael prifysgol o fewn eu blwyddyn gyntaf oherwydd eu bod wedi dewis y lle anghywir.

Mae yna amryw o faterion i'r person ifanc i'w hystyried wrth feddwl am ba brifysgol a chwrs a all fod yn fwyaf addas iddynt.

Fe all agosrwydd y campws at eu teulu maeth, eu teulu biolegol neu gyfeillion fod yn ystyriaeth, ar yr amod bob amser bod eu prifysgol leol yn cynnig cwrs addas. I eraill, fe all mai symud i ffwrdd yw'r opsiwn gorau..

Mae gan rai prifysgolion gampysau llwyr integredig ar gyrion trefydd neu yng nghefn gwlad gyda'r holl gyfleusterau a lletyau gyda'i gilydd. Fe all hyn fod yn ddeniadol i rai ac mae'n haws ennill cyfeillion a theimlo'n rhan o gymuned ehangach. Mae prifysgolion eraill ar safleoedd hollt yng nghanol trefydd mawr a dinasoedd. Fe all hyn olygu bod lletyau myfyrwyr a chyfleusterau chwaraeon yn gryn bellter i ffwrdd. Fe all ystyriaethau yma gynnwys costau cludiant neu ddiogelwch personol wrth deithio yn y tywyllwch. Ar y llaw arall, mae dinasoedd mawrion yn cynnig holl ystod o gyfleusterau cymdeithasol a diwylliannol nad oes gan drefydd llai, ac fe all hyn fod yn ddeniadol os yw'r person ifanc yn mynd i fyw i'r ardal yn ystod cyfnodau gwyliau pan fo myfyrwyr eraill wedi dychwelyd adref.

Ble mae'r cwrs Gradd yn cael ei gynnig? Mae llawer o brifysgolion wedi'u lleoli ar safleoedd hollt. Mewn achosion o'r fath, byddwch yn eglur iawn lle mae'r cwrs yn cael ei gynnig. Fe allai'r gwir safle fod yn gryn bellter o'r prif gampws, fyddai'n golygu llawer o amser yn teithio yn ôl ac ymlaen bob diwrnod a threuliau teithio cysylltiedig. Efallai bod gan safleoedd anghysbell lai o gyfleusterau – er enghraifft, mynediad cyfyngedig at y rhyngrwyd neu arlwyo, ac fe all o ddal i fod yn angenrheidiol i ddychwelyd i'r prif gampws i ddefnyddio'r llyfrgell neu gyfleusterau dysgu eraill.

Mae tablau cynghrair prifysgolion yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd yr addysgu a'r ymchwil mewn pynciau allweddol. Fe all hyn fod yn neilltuol o bwysig os ydynt yn meddwl am fynd i wneud astudiaeth ôl-raddedig yn ddiweddarach. Mae tablau cynghrair yn cael eu cyhoeddi gan bapurau newydd fel *TheTimes* – ewch i **www.timeshighereducation.co.uk**

Wrth edrych ar dablau cynghrair, mae'n bwysig edrych ar holl agweddau o sut mae prifysgol yn cael ei sgorio, ac nid ond y sgôr cyffredinol. Mae prifysgolion yn derbyn sgôr am lawer o wahanol ffactorau, yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon, llyfrgelloedd, cyfleusterau TG, bywyd myfyrwyr, ymchwil, ansawdd yr addysgu, lleoliad, er enghraifft.

Fe fydd costau lletyau prifysgolion yn amrywio o le i le, ac o fewn yr un brifysgol, yn dibynnu ar y cyfleusterau sydd ar gael. Dros y blynyddoedd, fe arferid galw llety prifysgol yn 'byw mewn neuaddau preswyl'. Mae gan y rhan fwyaf bellach fflatiau naill ar y campws neu gerllaw. Mae'r rhan fwyaf o fflatiau'n cael eu rhannu rhwng tri a naw o bobl, ac fel arfer mae yna ystafell wely astudio unigol a chegin ar y cyd. Mae gan rai ystafelloedd ymolchi ynghlwm. Y manteision yw bod yna yn wastad bobl o amgylch ac mae yna fel arfer reolwr neu warden ar y safle. Yr anfanteision yw y gall y person ifanc gael ychydig iawn o breifatrwydd ac fe all deimlo'n llai diogel na byw'n eu fflat eu hunain. Weithiau, fe all myfyrwyr eraill roi pwysau ar eraill i ymuno â gweithgareddau pan fo arnynt eisiau astudio neu fe allant gynnal parti pan fo ganddynt draethawd i'w gwblhau.

Mae gan rai prifysgolion drefniadau arbennig ar gyfer pobl sy'n gadael gofal fel eu bod yn gallu aros mewn llety prifysgol dros y gwyliau (llety ar hyd blwyddyn) ac am y tair neu bedair blynedd lawn. Fe all eraill roi mynediad blaenoriaethol i, neu hyd yn oed le gwarantedig, mewn llety prifysgol. Gweler tudalen 30

Dewis prifysgol

Am y ffynhonnell orau o wybodaeth parthed dewis prifysgol, ewch i **www.ucas.com**.

Mae yna amryw o safleoedd eraill fydd yn rhoi gwybodaeth fwy personol, lai ffurfiol am wahanol gyrsiau a sefydliadau – ewch i:

- Mae **www.ukcoursefinder.com** yn lleoli'r cyrsiau prifysgol delfrydol. Mae holiadur ar-lein yn tynnu sylw at ddiddordebau mewn 150 a mwy o ddisgyblaethau Gradd.
- Mae **www.push.co.uk** yn ganllaw annibynnol i brifysgolion y Deyrnas Unedig, bywyd myfyrwyr, blynyddoedd i ffwrdd, diwrnodau agored, cyllid i fyfyrwyr ac unrhyw beth sy'n gysylltiedig â myfyrwyr.
- Mae **www.unofficial-guides.com/universities** yn darparu gwybodaeth arall am addysg uwch ar gyfer darpar israddedigion.

Pennod Pump

Cefnogaeth gyffredinol tra eich bod yn y Brifysgol

5

Cefnogaeth gyffredinol tra eich bod yn y Brifysgol

Yr ystod o wasanaethau cymorth a gynigir mewn prifysgol

Yn ogystal â chymorth ariannol, mae prifysgolion hefyd yn darparu ystod o wasanaethau cymorth eraill sydd wedi'u neilltuo i helpu myfyrwyr i fanteisio hyd yr eithaf ar fywyd prifysgol. Mae pob un brifysgol yn wahanol ond fe allwch ddisgwyl i'r rhan fwyaf o brifysgolion gael rhyw fath o Wasanaeth Cymorth i Fyfyrwyr.

Fe fydd y rhan fwyaf o brifysgolion yn darparu gwasanaeth anabledd i gefnogi ymgeiswyr anabl a myfyrwyr cyfredol, yn cynnwys y sawl sydd ag anawsterau dysgu penodol, namau ar y synhwyrau, namau corfforol, cyflyrau meddygol hirdymor ac anawsterau iechyd meddwl, yn cynnwys gwybodaeth am y math o gefnogaeth y gall fod arnynt ei hangen.

Fe all gwasanaethau cwnsela mewn prifysgolion ddarparu lle diogel i siarad i unrhyw fyfyriwr sy'n canfod bod eu pryderon emosiynol neu seicolegol yn effeithio ar eu hastudiaethau a'u bywyd yn gyffredinol. Fe all cwnselwyr proffesiynol ddarparu cefnogaeth berthnasol drwy wasanaeth therapi byr, rhaglenni gweithdai neu drwy adnoddau ar-lein ac eraill.

Fe fydd gan y rhan fwyaf o Wasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr gynghorwyr i ddarparu cyngor ac arweiniad ynghylch amryw o faterion a all gynnwys cymorth gyda chyllid myfyrwyr (yn cynnwys israddedigion, ôl-raddedigion a chyllid y GIG), materion academaidd eu naws, materion lles, gofal plant, arian, dyled, budd-daliadau a thai.

Fe fydd gan y rhan fwyaf o brifysgolion Wasanaeth Cymorth i Fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, hefyd. Fe allant ddarparu cyngor ar deithebau, cyflogaeth, tai, cyllid a bywyd dyddiol yn y Deyrnas Unedig.

Fe fydd gan brifysgolion sydd â Gwasanaeth Cymorth i Fyfyrwyr dudalennau penodedig ar eu gwefan sy'n darparu rhagor o wybodaeth. Os ydych yn chwilio am *Student Support* yn y blwch chwilio ar wefan y brifysgol, fe ddylai'ch cysylltu chi â'r tudalennau gwe perthnasol.

Am wybodaeth fanylach am gefnogaeth sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal ym mhrifysgolion Cymru, lawrlwythwch gopi am ddim o **Canllaw Addysg Bellach ac Uwch ar gyfer pobl ifanc mewn ac yn gadael gofal yng Nghymru: Gwybodaeth ar gyfer 2011/2012** oddi ar **www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/adran-gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr/support-for-care-leavers/**



Cefnogaeth i bobl sy'n gadael gofal

Marc Ansawdd Buttle UK

Mae llawer o bobl sy'n gadael gofal yn gofidio am yr unigrwydd ac ansicrwydd ariannol a all ddigwydd mewn prifysgol. Fe ddywedodd y person graddedig ac sydd wedi gadael gofal, Cheryl: 'Ni allwn i fynd ar wyliau fel y myfyrwyr eraill: 'roedd yn rhaid imi'i drefnu o i gyd o flaen llaw gyda'r gwasanaethau cymdeithasol. Fe fyddai wedi gwirioneddol helpu pe bawn wedi cael rhywle i aros, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf, a rhywun i siarad ag ef ar y campws.' (Dyfynnir gan Newmark 2010)

Mae llawer o brifysgolion yn awr yn cynnig yn union hynny, yn cael eu sbarduno gan Buttle UK, sy'n dyfarnu Marc Ansawdd Buttle UK i sefydliadau addysg uwch sy'n weithredol wrth gefnogi ac annog pobl sy'n gadael gofal.

O fod wedi ennill Gwobr y Marc Ansawdd, fe ddisgwylir i sefydliad godi dyheadau a chyrhaeddiad pobl sy'n gadael gofal. Mae yna reidrwydd ar sefydliadau Marc Ansawdd i gynnig ystod o gymorth sy'n cynnwys cymorth gyda llety drwy'r flwyddyn, bwrsariaethau ac aelod dynodedig o staff, fel y cyswllt allweddol i fyfyrwyr o gefndir gofal.

Y pedwar maen prawf cyffredinol o Farciau Ansawdd i Bobl sy'n Gadael Gofal yw:

1. Codi dyheadau a chyraeddiadau.
2. Cael gweithdrefnau derbyn priodol.
3. Darparu cymorth gyda mynediad a chymorth parhaus.
4. Monitro'r gwaith o weithredu'r Ymrwymiad.

Mae'r rhan fwyaf o golegau a phrifysgolion yng Nghymru yn mynd ymhellach na chynnig y diwrnod agored arferol, gan ddarparu mentoriaid i bobl sy'n gadael gofal a chymorth ariannol ychwanegol yn benodol i bobl sy'n gadael gofal.

Cadwch lygad yn agored ar Farc Ansawdd Buttle UK ar lenyddiaeth prifysgol – neu teipiwch *care leaver* i flwch chwilio ar dudalen we'r brifysgol.

Ticiwch y blwch Care leaver ar ffurflen gais UCAS

Mae'n hanfodol bod pobl sy'n gadael gofal yn ticio'r blwch ar ffurflen gais UCAS, gan ddatgan eu bod wedi treulio amser dan ofal neu os yw'n amgenach ganddynt, hysbysu'r aelod dynodedig o staff yn y sefydliad (gweler tudalen 23 a 24). Mae gan rai colegau addysg bellach flwch ticio tebyg ar eu ffurflen gais. Fe fydd prifysgolion a cholegau yn trin yr ateb yn gyfrinachol - ni chaiff y wybodaeth ei chylchlythyru i staff, adrannau, tiwtoriaid eraill, ac yn y blaen, oni bai bod y person ifanc yn rhoi caniatâd i hynny ddigwydd. Fe fydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gysylltu â'r person ifanc i drafod a oes arnynt angen unrhyw adnoddau neu gefnogaeth ychwanegol ai peidio i ymgymryd â'u cwrs dewisedig. Fe all hefyd alluogi mynediad at gymorth ariannol ychwanegol.

Cymorth arbenigol i bobl sy'n gadael gofal a chysylltiadau a ddynodwyd gan brifysgol i bobl sy'n gadael gofal

Os yw'r person ifanc yn ystyried mynd i sefydliad neilltuol, yna fe argymhellir yn gryf eu bod yn cysylltu gyda nhw, gan ddefnyddio'r manylion cysylltu hyn i gadarnhau'r cymorth maent yn ei gynnig. Mae hyn yn neilltuol o bwysig am gyngor yn ymwneud â chymorth ariannol. Fe fyddant yn hapus clywed oddi wrth bobl ifanc a'u gofalwyr maeth. A fyddech cystal â chyfeirio at y tabl hwn am fanylion cysylltu:

Prifysgol	Cyswllt cymorth i bobl sy'n gadael gofal	Llety am 52 wythnos	Bwrsariaeth i bobl sy'n gadael gofal	Cymorth cyn mynediad	Cyllid a chyngor	Dolen Gwefan
Prifysgol Aberystwyth	**Debra Croft** dec@aber.ac.uk 01970 621890	✓	✓	✓	✓	www.aber.ac.uk
Prifysgol Bangor	**Wendy Williams** wendy.williams@bangor.ac.uk 01248 383637	✓	✓	✓	✓	www.bangor.ac.uk
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	**Emma Cook** financeadvice@cardiffmet.ac.uk 029 2041 6170/ 6333	✓	✓	✓	✓	www.uwic.ac.uk
Prifysgol Caerdydd	**Einir Evans** evansE23@cardiff.ac.uk 0290 20 9 2087 4844	✓	✓	✓	✓	www.cardiff.ac.uk
Prifysgol Glyndŵr	**Beryl Dixon** b.dixon@glyndwr.ac.uk 01978 293547	✓	✓	✓	✓	www.glyndwr.ac.uk
Prifysgol Abertawe	**Asad Rahman** a.rahman@swansea.ac.uk 01792 513393	✓	✓	✓	✓	www.swan.ac.uk

Parhad:

Prifysgol	Cyswllt cymorth i bobl sy'n gadael gofal	Llety am 52 wythnos	Bwrsariaeth i bobl sy'n gadael gofal	Cymorth cyn mynediad	Cyllid a chyngor	Dolen Gwefan
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	**Paul Davies** davidpaul.davies@smu.ac.uk	✓	✓	✓	✓	www.smu.ac.uk
Prifysgol Morgannwg	**Kelly Symonds** ksymond1@glam.ac.uk 01443 482969	✓	✓	✓	✓	www.glam.ac.uk
Prifysgol Cymru, Casnewydd	**Lena Crookes** lena.crookes@newport.ac.uk 01633 432064	✓	✓	✓	✓	www.newport.ac.uk
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Campws Llanbedr Pont Steffan)	**Lynda Lloyd-Davies** l.lloyd-davies@tsd.ac.uk 01570 424761	✓	✓	✓	✓	www.trinitysaintdavid.ac.uk
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Campws Caerfyrddin a Dysgwyr o Bell)	**Delyth Lewis** d.lewis@tsd.ac.uk 01267 6767947	✓	✓	✓	✓	www.trinitysaintdavid.ac.uk

Pennod Chwech

Cymorth Ariannol

6

Cymorth Ariannol

Ynghyd â beth a ble mae arnynt eisiau astudio, fe fydd pobl sy'n gadael gofal yn ddi-os yn meddwl am y gost o fynd i brifysgol. Mae yna ddigonedd o wybodaeth ar gael i'w helpu nhw i ddewis.

I fyfyrwyr sy'n meddwl am astudio cyrsiau a ariannir gan y GIG, fel nyrsio, radiograffeg, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a therapi deintyddol a hylendid, mae'r cyllid ychydig yn wahanol. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Uned Dyfarniadau GIG Cymru: **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/829/page/36092**

I fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru cyn dechrau'u cwrs, ac nad ydynt ar gwrs a ariannir gan y GIG, mae arnynt angen ymgeisio at Cyllid Myfyrwyr Cymru am gyllid. Ewch i **www.studentfinancewales.co.uk**. Fe allant ymgeisio drwy fewngofnodi a defnyddio'r ffurflen gais ar-lein neu lawrlwytho copi caled o'r ffurflen PN1. Fe allant hefyd gysylltu â'u Hawdurdod Addysg Lleol am ffurflen gais. Mae ceisiadau yn agor fel arfer ym mis Mawrth cyn eu bod yn dechrau'u cwrs.

Mae'n bwysig cofio bod y system cyllid myfyrwyr, er y gall y symiau sy'n gysylltiedig ymddangos yn ddychrynllyd, wedi'i chynllunio fel nad oes ar fyfyrwyr angen canfod arian o flaen llaw i dalu ffioedd dysgu. Mae yna grant a benthyciad ar gael i dalu am ffioedd dysgu. Fe wnânt dderbyn cymorth ariannol ar ffurf benthyciadau, grantiau, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau i dalu am eu costau byw. Ni fydd yn rhaid ad-dalu unrhyw fenthyciad a gymerir tan eu bod wedi gorffen eu cwrs a'u bod yn ennill uwchben rhyw drothwy neilltuol (ar hyn o bryd £21,000 y flwyddyn). Mae'r swm sydd i'w ad-dalu'n wedi'i gysylltu â'u hincwm (ar hyn o bryd 9% o'u hincwm dros £21,000). Fe fydd unrhyw fenthyciad sy'n ddyledus ar ôl 30 mlynedd ar ôl gorffen eu cwrs yn cael ei ddileu.

Mae'n bwysig nodi nad yw pob dyled yr un fath. Mae'n hawdd i bobl ifanc feddwl, 'Mae'n rhaid imi gael benthyciad myfyriwr, pam lai benthyca ychydig mwy?' Mae'n bwysig i'r person ifanc ddeall natur unigryw'r gwasanaeth benthyciadau i fyfyrwyr - nid oes yna fenthyciad arall ar gael lle mae ad-daliadau yn ddibynnol ar incwm. Yn ogystal, nid yw mathau eraill o fenthyciadau yn gyllid â therfynau amser ac ni fyddant byth yn diflannu, yn dilyn am daliad hyd yn oed os na all y person ifanc ei fforddio fo - mae'r llog yn wastad yn uwch ac fe fydd yn lluosogi ar gyflymder. Mae angen cael neges eglur iawn am y goblygiadau o ymhél â mathau eraill o gael benthyg arian i ariannu addysg uwch.

Yn gyffredinol, fe fydd pobl sy'n gadael gofal sy'n mynd i mewn i addysg uwch yn cael eu hystyried fel rhai sydd â statws annibynnol, hynny yw, myfyriwr annibynnol nad oes disgwyl mwyach iddo ddibynnu ar gymorth gan ei rieni. Mae'n rhaid iddynt brofi dieithriad ar ddechrau'u cwrs. Fe ddylai llythyr yn cadarnhau'u statws oddi wrth yr Awdurdod Lleol fod yn ddigonol. Fodd bynnag, os yw'r person ifanc yn byw gyda chymar, fe ellir cymryd hyn i ystyriaeth.

Cyllid myfyrwyr

Am wybodaeth gyffredinol am gostau addysg prifysgol a'r cymorth ariannol sydd ar gael yng Nghymru (yn cynnwys eglurhad am fenthyciadau myfyrwyr a sut i'w had-dalu nhw), ewch i **www.studentfinancewales.co.uk**.

Ewch i **www.moneysavingexpert.com** a theipiwch *students* yn y blwch chwilio.

Grantiau a benthyciadau ffioedd – Crynodeb o'r mathau o gymorth ariannol sydd ar gael

Ffioedd Dysgu

O 2012/13, fe all prifysgolion Cymru godi Ffioedd Dysgu o hyd at £9,000 pob blwyddyn academaidd. Fodd bynnag, nid oes yna ddisgwyliad ar fyfyrwyr i dalu hyn i gyd o flaen llaw tra eu bod yn astudio. Mae Benthyciad Ffi Dysgu a Grant Ffi Dysgu newydd ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng Cyllid Myfyrwyr Cymru i dalu am y ffioedd a godir ar fyfyrwyr.

Mae **Benthyciadau Ffioedd Dysgu** yn cael eu talu yn uniongyrchol i'r brifysgol gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Fe all pob myfyriwr cymwys gymryd Benthyciad Ffi Dysgu, gan nad oes prawf modd arno. I fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn 2012/13, uchafswm y Benthyciad Ffi Dysgu y gallant ei gymryd yw £3,465.

Fe fydd yna **Grant Ffi Dysgu newydd** hefyd ar gael yn benodol i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Fe fydd y Grant Ffi Dysgu yn talu am y ffioedd sy'n weddill a gaiff eu codi. Er enghraifft, ar gyfer prifysgol sy'n codi £9,000 y flwyddyn, fe fydd myfyriwr yn derbyn Benthyciad Ffi Dysgu o £3,465 a Grant Ffi Dysgu o £5,535. Fe fydd y Grant Ffi Dysgu'n cael ei dalu'n uniongyrchol i'r brifysgol maent yn ei mynychu, ni fydd yna brawf moddion arno, ac nid yw'n ad-daladwy.

Costau Byw

Fe all pob myfyriwr, os yw'n gymwys, wneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth a Grant Dysgu'r Cynulliad i helpu i dalu'r costau byw tra eu bod yn astudio. Fe fydd angen ad-dalu'r Benthyciad Cynhaliaeth yn yr un ffordd â'r Benthyciad Ffi Dysgu pan fyddant yn gorffen eu cwrs. Nid yw Grant Dysgu'r Cynulliad yn daladwy.

Mae cyfanswm Grant Dysgu'r Cynulliad a'r Benthyciad Cynhaliaeth sydd ar gael yn ddibynnol ar incwm y cartref. Gan fod person sy'n gadael gofal at ei gilydd yn cael ei drin fel myfyriwr annibynnol, fe ddylai fod ganddynt hawl i'r cymorth uchaf. Yn 2012/13, uchafswm **Grant Dysgu'r Cynulliad yw £5,000** ac uchafswm y **Benthyciad Cynhaliaeth yw £1,901**.

Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau

Yn ychwanegol at y cymorth ariannol a ddarperir gan Cyllid Myfyrwyr Cymru, fe fydd y rhan fwyaf o brifysgolion yn cynnig eu cymorth ariannol eu hunain. Fe all hyn fod ar ffurf bwrsariaeth neu ysgoloriaeth; fe fydd gan y rhain i gyd eu meini prawf cymhwysedd eu hunain ac maent yn aml ond ar gael i nifer cyfyngedig o fyfyrwyr sy'n cymhwyso. Fe fydd pob sefydliad yn penderfynu faint o gymorth maent yn ei gynnig ac i bwy maent yn ei gynnig. Mae pobl sy'n gadael gofal yn aml yn grŵp blaenoriaethol ar gyfer prifysgolion, ac felly mae'n werth gwirio a yw'r person ifanc yn bodloni'r meini prawf. Nid oes yn rhaid ad-dalu bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.

Fe all bwrsariaethau ac ysgoloriaethau gael eu talu mewn arian parod, ond fe allant hefyd gael eu talu mewn ffyrdd eraill, fel hawlildiad ffi. Mae hyn yn ostyngiad yn lefel y ffioedd sy'n cael eu codi naill ai am flwyddyn neilltuol o astudio neu am gwrs cyfan.

Cyllid a grantiau gan elusennau

Mae yna rai elusennau sy'n darparu grantiau i bobl sy'n gadael gofal mewn prifysgol. Mae'r Gwasanaeth Ymgynghorol Grantiau Addysgol (EGAS) yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd ar gael. Ewch i **www.egas-online.org.uk**. Am restr o sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd am gyllid a grantiau, ewch i **www.unigrants.co.uk**

Fe sefydlwyd Y Buttle Trust UK er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn angen yn cael dyfodol disgleiriach, ac maent yn gwneud hyn drwy ystod o raglenni grantiau sydd wedi'u cynllunio i ddarparu'r cymorth i blant a theuluoedd unigol diymgeledd mae arnynt ei angen i oresgyn argyfwng uniongyrchol, neu i sicrhau'r cyfle gorau posibl ar gyfer addysg lwyddiannus. Am ragor o wybodaeth, ewch i
http://www.buttleuk.org/pages/grant-programmes.html

Myfyrwyr Anabl

Os oes gan y person ifanc anabledd dysgu penodol neu amhenodol neu unrhyw anabledd arall, fe all fod ganddynt hawl i'r Lwfans Myfyrwyr Anabl i gynorthwyo gyda chostau ychwanegol yn gysylltiedig ag astudio a bod ag anabledd. Ewch i
www.studentfinancewales.co.uk

Rhieni ifainc neu unig rieni

Mae yna gymorth ariannol ychwanegol ar gael i gynorthwyo myfyrwyr sydd â phlant dibynnol oddi wrth Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae yna brawf modd ar y rhain ac maent yn cynnwys Lwfans Dysgu i Rieni (uchafswm o £1,508 yn 2012/13) a Grant Gofal Plant a all dalu hyd at 85% o gostau gofal plant cofrestredig. Ewch i: **http://www.childcare.co.uk/**

Myfyrwyr Rhyngwladol

Os ydych yn maethu person ifanc mae arno eisiau mynd i brifysgol ac mae o'n geisiwr lloches ar ei ben ei hun, fe fydd y trefniadau ar gyfer ffioedd a'u hawliau yn dibynnu ar a gytunwyd ar eu statws mewnfudo gan y Swyddfa Gartref.

Cymorth ariannol oddi wrth awdurdodau lleol

Er gwaethaf yr uchod i gyd am y cyllid hwn ar gael, fe ddylai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am bobl ifanc yn eu gofal, fel rhieni corfforaethol, ddal i ddarparu cymorth ariannol, ymarferol ac emosiynol digonol iddynt yn ystod eu hastudiaethau.

Bwrsariaeth Addysg Uwch i Bobl sy'n Gadael Gofal

Mae gan bobl sy'n gadael gofal sy'n dechrau yn y brifysgol cyn eu 25ain penblwydd hawl i fwrsariaeth o leiafswm o £2,000 oddi wrth eu hawdurdod lleol. Fe ddylent ymgeisio'n uniongyrchol atyn' nhw. Fe ellir talu hwn mewn cyfandaliad neu mewn rhandaliadau; fe gytunir ar amseriadau taliadau'r fwrsariaeth rhwng y person sy'n gadael gofal a'r awdurdod lleol. Gan mai bwrsariaeth ydi hi, nid oes yn rhaid ad-dalu'r Fwrsariaeth Addysg Uwch i Bobl sy'n Gadael Gofal.

Mae hi'n gred gyffredin nad oes yn rhaid i awdurdodau lleol dalu Bwrsariaeth Addysg Uwch ar y swm llawn os yw'n darparu math arall o gymorth ariannol. Mae'r Fwrsariaeth Addysg Uwch yn rheidrwydd cyfreithiol. Mae Adran 23C Deddf Plant 1989 yn rhoi rheidrwydd ar awdurdod lleol i dalu Bwrsariaeth Addysg Uwch i blant perthnasol blaenorol sy'n gwneud cwrs mewn addysg uwch yn unol â'u Cynllun Llwybr. Mae rheoliadau cysylltiedig yn delio gyda'r trefniadau talu mae ar awdurdodau lleol angen eu sefydlu i dalu i blant perthnasol blaenorol sy'n ymgymryd â chwrs o'r fath. Maent yn rhagnodi ystyr addysg uwch er diben pennu cymhwysedd ar gyfer y fwrsariaeth a gosod y fframwaith cyffredinol ar gyfer trefniadau mewn perthynas ag amseriad taliadau.

Mae Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000 a chanllawiau yn rhoi manylion sut y dylai awdurdodau lleol gymorth pobl sy'n gadael gofal. Fe fydd gan bob un awdurdod lleol ei brotocolau'u hun parthed y Ddeddf.

Cyllidebau myfyrwyr

Mae'r Cyfrifiannell Myfyrwyr yn offer i helpu israddedigion cyfredol neu ddarpar israddedigion i gyfrifo faint o arian fydd ganddynt yn y brifysgol, a faint y bydd arnynt ei angen. Ewch i **www.studentcalculator.org.uk**

Lletyau

Mae llety yn un o'r agweddau pwysicaf ac eto yn un o'r treuliau mwyaf mewn bywyd prifysgol. Mae gan fyfyrwyr hawl i daliadau rhent gan yr awdurdod cyfrifol. Os oes gan y person ifanc denantiaeth eisoes, ac mae arno eisiau astudio mewn ardal arall, yna fe ddylid gwneud trefniadau rhwng y person ifanc a'r awdurdod lleol ynglŷn â pha ffordd yw'r orau i sicrhau'u cartref drwy gydol y cwrs.

I rai pobl sy'n gadael gofal, fe all hi fod yn bosibl y gallant golli'u cartref os ydynt yn penderfynu symud i ffwrdd i fynd i brifysgol neu os ydynt yn penderfynu parhau i fyw ar y campws. Mae hyn yn dibynnu ar eu Hawdurdod Lleol, ac mae'n rhaid iddyn' nhw siarad gyda nhw. Fe fydd arnynt hefyd angen gwirio a fyddant yn cael eu hystyried fel pobl sydd wedi gwneud eu hunain yn ddigartref pan fônt yn gorffen prifysgol ac eisiau dychwelyd i'w hardal eu hunain. Mae'n rhaid iddynt gael atebion eglur iawn i'r cwestiynau hyn cyn ildio tenantiaeth. Fodd bynnag, mae rhai Awdurdodau Lleol yn cynnig cymorth gyda rhent tra eu bod yn astudio mewn prifysgol.

O dan Ddeddf Plant yn Gadael Gofal 2000, mae yna ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau llety i bobl sy'n gadael gofal yn ystod gwyliau.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau gadael gofal yn cynnig lwfans sefydlu cartref ar gyfer pobl ifanc pan fônt yn symud i mewn i'w cartref cyntaf. Fe fydd hyn yn eu galluogi nhw i brynu'r cyfarpar sylfaenol y bydd arnynt ei angen megis dodrefn, llieiniau, dillad gwely a llestri. Mae gan bobl ifanc sy'n mynd i'r brifysgol hawl i'r un gefnogaeth os nad ydynt yn mynd i fyw mewn llety wedi'i ddodrefnu a ddarperir gan y brifysgol.

Fe fydd benthyciad cynhaliaeth (gweler tudalen 28) yn talu rhywfaint o'r costau byw beunyddiol ond mae'n debygol y bydd arno angen cael ei gydategu gydag arian oddi wrth yr awdurdod lleol.

Darpariaeth Technoleg Gwybodaeth

Mae cael modd o gael at gyfarpar TG bron iawn yn rhaganghenraid ar gyfer astudiaeth brifysgol. Fe fydd pob un sefydliad yn rhoi mynediad at y cyfryw gyfarpar ond fe all brofi'n anodd cyrchu ar amseroedd prysur neu os yw'r person ifanc yn byw oddi ar y campws. Fe fydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyn, naill ai ar sail dros dro neu ar sail barhaol.

Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig – nodyn i ofalwyr maeth

Mae rhai gofalwyr maeth yn gofidio y gall ymgeisio am orchymyn gwarchodaeth arbennig (GGA) ar gyfer person ifanc effeithio'n andwyol ar gyllid ar gyfer prifysgol, ac y byddant fel gofalwyr maeth ar eu colled yn ariannol.

Wrth ymgeisio am GGA, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad ar gyfer gwasanaethau cymorth, os gofynnir am hyn. Fe fydd yr asesiad yn cynnwys anghenion y plant sy'n derbyn gofal, gallu'r gwarcheidwad arbennig i rianta, amgylchedd y teulu, gwasanaethau gadael gofal a'r angen am gymorth ariannol. Fe ddylai'r darpar warcheidwad arbennig nodi anghenion ariannol llawn y cymorth ôl-18 maent yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys yn y pecyn cymorth. Fe ddylai'r anghenion ariannol hyn fod wedi'u nodi yn y Cynllun Llwybr.

Fe fyddai'n ddoeth i ofalwyr maeth drin a thrafod gyda'r awdurdod cyfrifol yn ystod y broses asesu er mwyn sicrhau bod y pecyn cymorth yn adlewyrchu'r anghenion cydnabyddedig cyn bod y drafft yn cael ei gyflwyno i'r llys. Fe fydd yna becyn cymorth drafft yn cael ei ystyried ar yr un adeg â'r cais am GGA.

Mae yna brawf modd ar gymorth ariannol, ond fe all yr awdurdod lleol ddiystyru prawf modd y gofal maeth mewn amgylchiadau penodol. Mae pecynnau cymorth yn cael eu hadolygu'n flynyddol neu yng nghynt, os oes yna newid sylweddol mewn amgylchiadau. Mae'n rhaid i'r gwarcheidwad arbennig gyflwyno datganiad blynyddol i'r awdurdod lleol i gyfrannu i'w hadolygiad o'r pecyn cymorth. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu newid neu ddiweddu'r cymorth ariannol, mae'n rhaid rhoi rhybudd a rhoi amser er mwyn i sylwadau gael eu gwneud.

Yn ychwanegol, fe all pobl ifanc, 16 i 20 oed, a oedd yn derbyn gofal yn syth cyn y gwnaed GGA, fod yn gymwys am gyngor a chymorth o dan Ddeddf Plant 1989, adran 24. Fe all awdurdod lleol gynnig yr un lefel o gymorth i bobl ifanc yn amodol ar GGA, ag y maent yn ei gynnig i bobl sy'n gadael gofal. Fe ddylid ystyried mynediad i hyn fel rhan o'r adolygiad o'r pecyn cymorth.

Cefnogaeth ac Adnoddau

Fe ddylai gofalwyr maeth sy'n ymgeisio am Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig, ac sy'n aelodau o'r Rhwydwaith Maethu, ymofyn cyngor cyfreithiol, naill ai oddi wrth Linell Cyngor Cyfreithiol y Rhwydwaith Maethu 0844 581 0404 neu roi cyfarwyddiadau i gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn cyfraith teulu/gofal plant.

Mae gwybodaeth fanwl ar gael yn *Special Guardianship* o eiddo'r Rhwydwaith Maethu, yn y *Signpost Series* sydd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar yr adran aelodaeth ar wefan y Rhwydwaith Maethu. Ewch i **www.fostering.net**

Neu ffoniwch:
Grŵp Hawliau Teulu **0808 801 0366** neu Llinell Gynghori ar Gyfraith Plant **0808 802 0008**
Ewch i Canolfan Gyfreithiol Plant **www.childrenslegalcentre.com**

Hawliau plant a phobl ifanc

- **www.childcom.org.uk** Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru gyfrifoldeb am ddiogelu hawliau plant fel a nodir yn y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.
- **www.voiceyp.org** Mae Voice yn elusen genedlaethol sydd wedi ymrwymo i rymuso plant a phobl ifanc dan ofal ac mewn angen.
- **www.nyas.net** Mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn elusen sy'n darparu gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth a chynrychiolaeth gyfreithiol i bobl ifanc ac oedolion diymgeledd yng Nghymru a Lloegr.

Pennod Saith

Helpu pobl ifanc i ymchwilio opsiynau Addysg Uwch

7

Helpu pobl ifanc i ymchwilio i opsiynau Addysg Uwch

Lle i ddechrau wrth ddewis prifysgol a chwrs

Mae yna liaws o wybodaeth a phobl ar gael i helpu'r person ifanc i wneud eu dewis o brifysgol a chwrs. Man cychwyn da yw i chi, fel gofalwr maeth, eu helpu nhw i goladu'r holl wybodaeth angenrheidiol. Fe all cynghorwr gyrfaoedd ddarparu prosbectysau neu lyfrynnau prifysgol, tra bydd gwefannau prifysgolion yn cynnwys gwybodaeth am gyrsiau, eu cynnwys a chanlyniadau posib', yn ogystal â chyngor buddiol am leoliadau a bywyd cymdeithasol.

Fe fydd pobl yn siarad am eu profiadau nhw'u hunain yn y brifysgol, eu plant genedigol neu'u plant maeth neu rai rhywun arall maent yn eu hadnabod – ond nid ydynt yn adnabod eich plentyn maeth chi na'i ddisgwyliadau, eu cryfderau a'u gwendidau ef neu hi. Fel gofalwr maeth, fe allwch eu helpu nhw i ddechrau cael syniad cyffredinol drwy'u hannog nhw i siarad gyda phobl sydd wedi bod mewn prifysgol, myfyrwyr cyfredol, tiwtoriaid ac athrawon. Yn ychwanegol, anogwch nhw i ddarllen gwe-flogiau ac ymweld â phrifysgolion.

Mae cynnig cyngor i'r person ifanc am eu dewis o gwrs Gradd a phrifysgol yn ffordd gadarnhaol i'w cynorthwyo nhw yn eu proses o lunio penderfyniad - ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn y ffordd gywir a gyda'r bwriadau a'r adnoddau gorau. Byddwch yn ystyriol i beidio â seilio'ch cyngor ar eich profiad chi'ch hun o ysgol neu brifysgol o flynyddoedd yn ôl. Mae pethau wedi datblygu ers hynny i'r sefyllfa lle y bydd y rhan fwyaf o brifysgolion yn anadnabyddadwy i genhedlaeth hŷn. Mae'r broses wedi newid y tu hwnt i adnabyddiaeth, gyda chyfrifiaduraeth, ffioedd dysgu a lefelau digynsail o ddewis. Yn ychwanegol, fe fydd bywyd prifysgol ei hun wedi newid yn sylweddol o ran myfyrwyr yn gorfod o ran potensial ennill cyflog drwy gydol eu Graddau, er enghraifft, ac yn sicr o safbwynt cymdeithasol.

Yn gychwynnol, mae'n hawdd teimlo allan o'ch dyfnder a heb fod â syniad lle i ddechrau a gwybod yn union beth i gynghori. Drwy lynu wrth y cyngor hwn, fe fyddwch chi o leiaf yn hyderus yn y wybodaeth am nid yn unig lle i ganfod atebion ond hefyd gyda phwy i siarad. Fe fydd y cyngor a'r gefnogaeth 'rydych yn eu cynnig wedi'u seilio ar wybodaeth gadarn, gyfoes a pherthnasol.

Dewis prifysgol a chwrs

- **www.prospects.ac.uk** Sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chyfleoedd i fyfyrwyr a graddedigion.
- **www.uni4me.com** Mae wedi'i ddatblygu fel rhagymadrodd i addysg uwch ar gyfer pobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr. Mae'n egluro cwestiynau 'sut' a 'pham' prifysgol gyda gwybodaeth ddefnyddiol am astudio, bywyd myfyrwyr a chyllid.
- **www.realuni.com** Y prosbectws gwahanol sy'n darparu cyngor a gwybodaeth a ysgrifennwyd gan fyfyrwyr am holl agweddau ymgeisio ar gyfer prifysgol, mae'n adeiladu proffiliau o Brifysgolion, ac mae'n caniatáu cysylltiad gyda myfyrwyr ledled y wlad.
- **www.unistats.com** Gwefan lle y gallwch chi chwilio, adolygu a chymharu pynciau mewn prifysgolion a cholegau yn y Deyrnas Unedig. Mae cynnwys canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr diweddaraf.
- **www.ukcoursefinder.com** Mae'n cynnwys holiadur ar-lein i helpu i ddewis y cwrs cywir ar gyfer lleoli'r cwrs prifysgol delfrydol. Gan fod yn gyflym i'w gwblhau, mae'r holiadur ar ddiddordebau astudio yn tynnu sylw at ddiddordebau mewn dros 150 o ddisgyblaethau Gradd.

Gwasanaethau allgymorth prifysgolion

Fe all hi fod yn anodd siarad am brifysgol fel opsiwn posibl os mai ychydig o wybodaeth sydd gennych am fywyd prifysgol, ac nid oes neb yn eich teulu uniongyrchol neu'ch cylch o gyfeillion wedi bod yn berson israddedig. Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion yn cynnig gwasanaethau allgymorth i bobl ifanc 14 mlwydd oed a hŷn. Fe all hyn fod yn gynnar i fod yn meddwl am opsiynau ond fe all allgymorth helpu gyda chymell a chynllunio ar gyfer y dyfodol os yw'r person ifanc yn gwybod beth a allai fod ar gael.

Mae allgymorth yn disgrifio'r gweithgareddau a'r gefnogaeth mae sefydliad yn eu cynnig i annog pobl ifanc i ymgeisio i astudio mewn addysg uwch yn gyffredinol, a gyda nhw yn neilltuol, ynghyd â'r gefnogaeth y gallant ei chynnig i helpu gyda phroses ymgeisio UCAS. Mae'i ffocws ar y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i'r ymgeisydd cyn iddynt gyrraedd y Brifysgol. Fe allai gweithgareddau allgymorth gynnwys:

- Ysgolion haf, teithiau campws a sesiynau blas i gynnig profiad o fywyd myfyrwyr a helpu darpar fyfyrwyr i benderfynu a yw sefydliad neilltuol yn addas iddyn' nhw.
- Mae rhai sefydliadau'n cynnig person wedi'i neilltuo a all gynnig cyngor ynghylch gwneud cais: fe allai hyn olygu cynghori ynghylch addasrwydd cwrs neilltuol neu gynnig cymorth penodol gyda chwblhau ffurflen gais UCAS.
- Cynlluniau Compact. Nod y cynlluniau hyn yw annog cyfranogiad mewn Addysg Uwch gan fyfyrwyr na fyddent fel arfer yn ystyried mynd i brifysgol. Fe allant gynnig cymorth gyda'u hastudiaethau cyfredol, y cyfle i samplu opsiynau Gradd yn y dyfodol a chymorth gyda'u cais.

- Ysgolion haf a all arwain at y person ifanc yn derbyn cynnig gwahanol yn seiliedig ar nid ond perfformiad academaidd.
- Cyfleoedd mentora lle mae person ifanc yn cael ei baru gyda myfyriwr cyfredol fel mentor. Fe allant gadw mewn cysylltiad drwy wefannau mentora penodol.

Am fanylion o bwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth am wasanaethau allgymorth, gweler tudalen 23 a 24.

Diwrnodau Agored Prifysgol

Fel gofalwr maeth, un o'r pethau pwysicaf y gallwch chi wneud gyda helpu i wneud y penderfyniad yw rhoi'ch cefnogaeth i ddiwrnodau agored prifysgol - boed o cyn ymweliad y diwrnod agored neu mewn gwirionedd fynychu'r diwrnod gyda'r person ifanc. Fe fydd eich ymwneud yn dangos ymrwymiad pendant iddyn' nhw, ac fe fydd yn eich galluogi chi i deimlo'ch bod yn ymgysylltu gyda'r holl broses ymgeisio. Mae prifysgolion yn disgwyl i rieni a gwarcheidwaid fynychu'u diwrnodau agored.

Nid profion dewis yw diwrnodau agored ond yn hytrach cyfle delfrydol i'r person ifanc archwilio a yw sefydliad neu gwrs yn iawn iddynt. Mae diwrnodau agored yn rhoi'r cyfle i siarad gydag academyddion. Yn y digwyddiadau hyn, fe allwch ganfod oddi wrth ddarlithwyr a myfyrwyr yr agweddau cadarnhaol a negyddol, fel ei gilydd, o fywyd prifysgol; cael tro o amgylch y cyfleusterau dysgu; campws a lletyau, ac archwilio'r bywyd cymdeithasol. Fe fydd hyd yn oed cerdded o amgylch y campws ac eistedd yn y bar coffi yn rhoi rhyw naws ichi o'r brifysgol a helpu i benderfynu a hoffent dreulio tair blynedd o'u hoes yno. Ar ben hynny, fe fydd y ffaith eich bod wedi ymweld â'r sefydliad o flaen llaw yn mynd ymhell i leddfu unrhyw or-bryder y gallai israddedigion deimlo ar eu diwrnod cyntaf.

Mae'n syniad da lleihau'r dewis o brifysgolion ac wedyn mynychu amryw o ddiwrnodau agored. Mae'r rhain yn ddigwyddiadau mawr, ac mae'r rhan fwyaf o brifysgolion yn cynnal amryw mewn blwyddyn. Mae pobl ifanc yn aml yn mynychu'r rhain ar ddiwedd Blwyddyn 11 neu ym Mlwyddyn 12. Mae diwrnodau ymweld yn gyffredinol yn mynd yn ôl adrannau, ac maent yn digwydd yn y gaeaf/y gwanwyn ar ôl gwneud cais. Fe ellir canfod rhestr lawn o ddiwrnodau agored, yn ogystal â rhagor o gyngor ac adnoddau, ar **www.opendays.com**. Os collwch y diwrnodau agored neu os na allwch eu mynychu, mae rhai prifysgolion yn cynnig cyngor un i un a gwasanaeth ymweld drwy hebrwng, ac ar gyfer hyn fe fydd arnoch angen ffonio'r sefydliad unigol a siarad gyda rhywun yn y swyddfa Recriwtio neu Dderbyniadau neu fynd i'w gwefan.

Fe all cymorth ariannol fod ar gael oddi wrth yr Awdurdodau Lleol i helpu gyda'r gost o fynychu diwrnodau agored a chyfweliadau – holwch y Tîm Ôl-Gofal neu Gadael Gofal cyfrifol.

Sut i fanteisio hyd yr eithaf ar Ddiwrnod Agored prifysgol

- canllaw gofalwr maeth

Cyn y diwrnod agored

- Gwnewch hi'n dasg unswydd i ymweld â mwy nag un brifysgol fel bod y person ifanc yn gallu gwneud cymariaethau ac yn y pen draw wneud dewis mwy gwybodus.
- Gwnewch yn sicr nad yw'r person ifanc yn mynychu'r diwrnod agored ar ei ben ei hun. Mae'n bwysig iddynt gael rhywun i drafod pethau gyda nhw, rhywun i roi ail farn ddidwyll ac i ofyn cwestiynau ychwanegol.
- Anogwch y person ifanc i ddarllen prosbectws y brifysgol cyn cyrraedd – gan wneud yn sicr bod strwythur a chynnwys y cwrs yr hyn mae ar y person ifanc eisiau.
- Helpwch i gasglu cymaint â phosibl o wybodaeth, boed o o'r ysgol, y llyfrgell neu drwy gyfrwng y rhyngrwyd.
- Anogwch y person ifanc i ddarllen canllawiau amgen; maent yn cynnig safbwynt arall.
- Meddyliwch am gwestiynau mae arnoch ill dau eisiau'u gofyn cyn ichi gyrraedd a gwnewch nodyn ohonynt.
- Edrychwch ar y rhaglen o ddigwyddiadau cyn ichi gyrraedd i ganfod pa weithgareddau fydd yn digwydd ar y diwrnod. Penderfynwch yn union beth mae arnoch eisiau'i weld a gwnewch o flaen llaw, gan y bydd hyn yn eich helpu i gynllunio'ch diwrnod.
- Os yw'n gymwys, gofynnwch am y cymorth sydd ar gael o ran anabledd i ddysgwyr mae arnynt anableddau corfforol, yn ogystal ag anableddau 'cuddiedig' megis dyslecsia. Fe fydd datgelu anabledd neu anhawster iechyd meddwl yn gynnar, megis yn y diwrnod agored, yn cynorthwyo'r sefydliad i ddechrau cynllunio ar gyfer unrhyw ofynion cymorth a allai fod gan y person ifanc. Os oes arnynt anabledd neu anhawster dysgu penodol, mae'n fuddiol cysylltu â sefydliadau unigol cyn cyflwyno'r cais i UCAS er mwyn trafod y gefnogaeth y gall fod arnynt angen.
- Gofynnwch am unrhyw gyllid ychwanegol; hynny yw, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau i bobl sy'n gadael gofal.

Mynychu'r Diwrnod Agored

- Fe all Diwrnodau Agored Prifysgolion ddenu miloedd o ymwelwyr, gyda sesiwn y bore y prysuraf. Os oes gan y person ifanc ddiddordeb mewn ond un cwrs neu Ysgol Academaidd, efallai y bydd arnoch eisiau ystyried cyrraedd ar gyfer y pnawn, gan fod y grwpiau sy'n mynychu yn y pnawn fel arfer yn llai. Os arhoswch tan ddiwedd y diwrnod, fe fydd gweithgareddau yn llawer distawach, ac fe gewch eich synnu faint a gaiff ei wneud o fewn yr amser.
- Rhannwch y diwrnod, yn enwedig os ydych yn gwneud taith faith – y peth diwethaf mae arnoch eisiau yw neidio yn syth i mewn i daith dywysedig heb gymryd egwyl.
- Ceisiwch weld rhannau o'r brifysgol nad ydynt fel rheol ar raglen yr ymwelwyr – e.e., y cyfleusterau golchi dillad, siopau ar y campws a lleoedd cymunedol yn y neuaddau preswyl.
- Gwnewch hi'n dasg unswydd i edrych ar y lletyau sy'n cael eu cynnig a'r cyfleusterau chwaraeon a hamdden.
- Gofynnwch am glybiau a chymdeithasau – a ydynt yn addas i ddiddordebau'r person ifanc?
- Osgowch ddirwyn eich ymweliad i ben yn gynnar – gwnewch yn sicr eich bod yn gweld popeth y gallwch o fewn eich ymweliad; fe fydd o ei werth o.
- Anogwch y person ifanc i siarad gyda myfyrwyr sy'n astudio'r cwrs mae ganddo ddiddordeb ynddo – fe allant yn aml roi safbwynt gwahanol i safbwynt y staff academaidd a chyflwyniadau ffurfiol.
- Ymwelwch â'r dref ac ardaloedd o amgylch - peidiwch â bod cywilydd gofyn i'r myfyrwyr am awgrymiadau ynghylch lle i fynd a lle mae myfyrwyr yn cymdeithasu. A yw'r bywyd cymdeithasol yn apelio atynt? A ydynt yn hoffi awyrgylch yr ardal? A yw'r brifysgol 'wedi'i seilio ar gampws' - y cyfan wedi'i gyfyngu i un ardal neu wedi'i ledaenu dros dref? Pa mor rhwydd yw hi i fynd o amgylch?
- Gwnewch nodiadau a thynnwch luniau ar ffôn symudol i helpu i gofio pethau yn gywirach yn ddiweddarach.
- Os yw'n gymwys, ymwelwch â chyfleusterau crèche mewn prifysgolion a gofynnwch am gyfarfod â myfyrwyr sy'n rhieni.
- Holwch am glybiau a chymdeithasau y tu allan i gymuned y myfyrwyr. Fe all ymuno â chlybiau o'r fath helpu pan fo myfyrwyr eraill i ffwrdd yn ystod amseroedd gwyliau.
- Helpwch y person ifanc i fod yn feirniadol am beth maen' nhw wedi'i weld a'i glywed.
- Cysylltwch â'r gwasanaeth cymorth i fyfyrwyr a chyfarfyddwch â'r person dynodedig ar gyfer pobl sy'n gadael gofal.

Os hoffech ragor o wybodaeth, a fyddech cystal â mynd i'r wefan a ganlyn:

www.opendays.com

Pennod Wyth

Proses ymgeisio UCAS

8

Proses ymgeisio UCAS

"Iawn, fe gaf fenthyciad myfyrwyr. Yn ddiau, ni fydd o mor anodd â hynny?"

Anghywir eto! Fe gollais allan ar fy lle yn y brifysgol oherwydd bod fy ngweithiwr cymdeithasol yn rhy anhrefnus.

Roedd hi wedi colli'r ffurflenni 'roedd arni angen i'w llofnodi, ac fe fethodd hi â dweud hyn wrthyf tan imi alw i ofyn pa bryd y byddai'n ddiwrnod da imi nôl y ffurflenni a'u trosglwyddo nhw â llaw i'r brifysgol. 'Roedd gen i wythnos yn weddill ac felly fe feddyliais pe bawn yn cael ffurflenni newydd y byddai hi'n gallu'u llofnodi nhw ar y diwrnod ac wedyn fe fyddwn yn gallu'u rhoi nhw i mewn. Ni wnaeth ddigwydd. Fe aeth fy ngweithiwr cymdeithasol ar wyliau blynyddol.

Rhwydwaith Maethu Cymru (2010)

Ar ôl yr holl waith sylfaenol hwn, mae hi yn awr yn amser dechrau'r broses ymgeisio i'r brifysgol. Mae gan y broses ymgeisio gamau niferus, ac fe all ymddangos yn hynod anodd a chymhleth ar yr olwg gyntaf. Fel gofalwr maeth, fe allwch helpu drwy gynefino'ch hun gyda'r broses ymgeisio ar ddechrau un chwiliad y person ifanc, yn cynnwys gwirio dyddiadau cau ac unrhyw ofynion unigol y prifysgolion y gallant eu dewis.

Nodiadau yn y dyddiadur ar gyfer proses ymgeisio UCAS

Fe fydd y calendr dilynol yn rhoi syniad ichi o daflen amser myfyriwr o ran ymchwil, ymgeisio a chofrestru sy'n dechrau ar ddechrau Blwyddyn 12.

Chwefror i Fehefin (Blwyddyn 12)

Mae myfyrwyr yn ymchwilio i ddewisiadau o brifysgol, mynychu Diwrnodau Agored a Ffeiriau Addysg Uwch. Mae ysgolion/colegau yn derbyn gwybodaeth am fyfyrwyr oddi wrth UCAS.

1af o Fedi

Mae UCAS yn agored i dderbyn ceisiadau ar gyfer derbyniadau i gyrsiau'r flwyddyn ddilynol.

15fed o Hydref

Blwyddyn 13 - Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i Rydychen neu Gaergrawnt, ac ar gyfer yr holl gyrsiau meddygaeth, deintyddiaeth a meddygaeth filfeddygol neu wyddoniaeth filfeddygol.

15fed o Ionawr

Y dyddiad cau ar gyfer y prif geisiadau i holl gyrsiau eraill prifysgolion.

Canol Mawrth

Mae'r system ceisiadau hwyr – UCAS Extra – yn dechrau.

30ain o Fehefin

Y dyddiad olaf y gall UCAS dderbyn ffurflenni cais 'hwyr'.

Gorffennaf/Awst

Mae canlyniadau Safon Uwch a'u cyfwerth yn cael eu cyhoeddi. Fe fydd myfyrwyr sydd wedi bodloni amodau'u cynnig yn cael lle ac fe fyddant yn awtomatig yn derbyn gwybodaeth oddi wrth y brifysgol. Fe fydd myfyrwyr nad ydynt yn cael y canlyniadau ar gyfer naill ai'u prifysgol dewis cyntaf neu'u hail ddewis yn awtomatig yn mynd i'r System Glirio.

Diwedd Medi

Mae cyrsiau prifysgolion yn dechrau, ac fe fydd myfyrwyr wedi derbyn dyddiadau ar gyfer cyrraedd y brifysgol.

Y NAW cam tuag at wneud cais i UCAS
(Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau)

1 Amseriad

Mae ceisiadau'n agor ym mis Medi ar gyfer cyrsiau i ddechrau yn y flwyddyn ddilynol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r mwyafrif o gyrsiau yw'r 15fed o Ionawr. Fe fydd rhai cyrsiau Sefydliad y Celfyddydau yn caniatáu ichi ymgeisio tan ganol mis Mawrth. Mae'r holl geisiadau'n mynd drwy UCAS (Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau), sef corff canolog sy'n prosesu miliynau o geisiadau bob blwyddyn ar gyfer cyrsiau gradd llawn amser.

Mae'n werth nodi bod meddygaeth, deintyddiaeth, gwyddorau milfeddygol ac Oxbridge i gyd yn ymgeisio drwy UCAS. Fe all Oxbridge ofyn am gais eilaidd i gael ei wneud yn uniongyrchol i'r coleg. Mae meddygaeth, deintyddiaeth a'r gwyddorau milfeddygol yn aml yn mynnu bod arholiadau ychwanegol yn cael eu sefyll. Mae gan y disgyblaethau hyn ddyddiad cau ar gyfer ceisiadau sef y 15fed o Hydref.

Fe fydd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn gweithio ar eu ffurflen gais UCAS yn yr ysgol neu goleg tuag at ddiwedd Blwyddyn 12 a dechrau Blwyddyn 13. Mae'r broses yn cael ei rheoli'n gyfan gwbl ar-lein, ac mae un ffurflen yn cwmpasu ceisiadau i amryw o brifysgolion, a hyd at bump o ddewisiadau o gyrsiau. Mae UCAS yn dosbarthu'r ffurflenni cais sydd wedi'u cwblhau ac yn rheoli'r ffordd y caiff lleoedd eu cynnig. Mae yna wahanol ddyddiadau cau ar gyfer gwahanol gyrsiau, ond yn gyffredinol y 15fed o Ionawr ydi o ar gyfer yr hydref dilynol, er ei bod bob amser yn fuddiol ymgeisio cyn gynted â phosibl. Edrychwch ar wefan UCAS bob amser am yr union ddyddiad **www.ucas.ac.uk**

Os yw cais yn hwyr, fe all er hynny gael ei ystyried yn ôl crebwyll y prifysgolion ac yn amodol ar y galw, ond ni ddylid dibynnu ar hyn.

System 'pwyntiau UCAS'
Fe fydd gan bob un brifysgol wahanol ofynion mynediad, ac fe fydd yn aml yn wahanol ar gyfer pob cwrs. Mae yna reolau ar wahân sy'n gymwys i fyfyrwyr aeddfed (21+). Mae nifer Pwyntiau Tariff UCAS yn cael ei nodi ar gyfer pob un cymhwyster. Er enghraifft, mae gradd A yn Safon Uwch yn werth 120 o bwyntiau; mae gradd B yn werth 100 o bwyntiau. Mae gan lawer o wahanol gymwysterau bwyntiau yn gysylltiedig â nhw, ac mae gan wefan UCAS dabl sy'n dangos y pwyntiau hyn.

2 Cwblhau'r ffurflen gais

Fe fydd yn rhaid i'r person ifanc roi amrywiaeth eang o wybodaeth ffeithiol yn y ffurflen gais, yn amrywio o fanylion megis gwybodaeth gysylltu, ysgolion blaenorol a graddau arholiad daroganedig. Yn ychwanegol, fe fydd arnynt angen cwblhau Datganiad Personol.

Fe fydd gan y rhan fwyaf o brifysgolion berson cyswllt mewn recriwtio, ehangu mynediad neu gymorth i fyfyrwyr fydd yn darparu cyngor i'r person ifanc dan ofal neu i'r gofalwr maeth parthed cwblhau'r ffurflen ac ysgrifennu Datganiad Personol.



3 Y Datganiad Personol

Un o rannau allweddol y ffurflen gais yw'r datganiad personol, lle y gall pobl ifanc 'werthu'u hunain' a dangos eu galluoedd. Mae'r adran hon yn amlygu'u cyraeddiadau, gobeithion, priodoleddau a phrofiad gwaith, ynghyd â rhesymau dros ddewis y cwrs, geirda oddi wrth berson mewn awdurdod yn eu hysgol gyfredol neu gyflogwr os ydynt yn gweithio, ac unrhyw beth arall i wneud i'w cais ddisgleirio wrth ochr rhai pobl eraill. Efallai'u bod yn gofidio am yr adran hon, gan ei bod hi'n cael ei gweld fel y rhan fwyaf heriol yn y cais. Fe fydd arnynt angen eich cymorth chi i'w chwblhau hi, ac fe all gymryd sawl drafft i gael o yn iawn.

Mae cystadleuaeth am leoedd mewn prifysgol yn galed, yn enwedig ar gyfer y cyrsiau mwyaf poblogaidd a'r rhai lle mae'r galw mwyaf. Y Datganiad Personol yw cyfle'r person ifanc i gynrychioli'u hunain yn y goleuni gorau i'r tîm derbyniadau yn eu prifysgol o ddewis. Mae llawer o brifysgolion yn hepgor cyfweliadau, ac felly mae'r Datganiad Personol yn hanfodol i wneud i'r person ifanc ddisgleirio ymysg yr holl ymgeiswyr. Mae ar y person sy'n ei ddarllen eisiau gwybod ai hwn yw'r cwrs iawn ar gyfer y person ifanc – A ydynt wedi ymchwilio i'r cwrs? A ydynt yn ymwybodol beth sydd ynghlwm? A oes ganddynt yr ymroddiad, y bersonoliaeth a'r gallu i orffen o?

Beth sydd angen cael ei gynnwys yn y Datganiad Personol?

Fe fydd ar y person ifanc angen bod â syniad pendant ynghylch pam bod arno eisiau astudio'r cwrs yn y brifysgol neilltuol hon. Nid oes ar y tîm derbyniadau eisiau darllen cyffredinoliadau annelwig.

Fe ddylai'r pwyntiau canlynol gael eu hystyried, ac mae gwefan UCAS yn cynnwys mwy o gyngor:

- Pam bod y cwrs o ddiddordeb iddynt?
- Pa yrfa yn y dyfodol sydd ganddynt mewn golwg a pham?
- Mae profiad gwaith yn bwysig, ac nid oes yn rhaid iddo fod yn gysylltiedig â'r cwrs. Fe fydd unrhyw gyflogaeth ran amser, gwaith elusennol neu wirfoddol yn dangos meddylfryd gweithio cryf. Fe ddylai aelodaeth o grwpiau ac ymgynghoriadau cyfranogol hefyd gael ei chynnwys.
- Beth maen' nhw'n hoffi'i wneud yn eu hamser hamdden? (Er enghraifft, a ydyn' nhw mewn tîm chwaraeon; a oes ganddyn' nhw ddoniau cerddorol?)
- Os yw'r person ifanc yn cymryd, neu wedi cymryd, blwyddyn i ffwrdd, fe fydd arnynt angen rhoi eglurhad llawn am eu cynlluniau, a sut y bydd hyn o fudd iddynt pan fyddant yn dechrau yn y brifysgol. (gweler tudalen 14)

Datganiadau Personol

Rydym yn cynghori eu bod ond yn canolbwyntio ar beth sy'n berthnasol i'r cwrs. Os yna darfu wedi bod ar eu haddysg ond eu bod wedi ennill profiad perthnasol, yna cynhwyswch o. Fe ddylai'r datganiad bob amser fod yn gadarnhaol ac osgoi tynnu sylw'r tiwtor derbyniadau at agweddau negyddol.

Os oes yna amgylchiadau arbennig lle mae yna darfu wedi bod ar addysg a'u bod yn teimlo bod angen egluro hyn, fe fyddem yn cynghori nad ydynt yn ei gynnwys o yn eu datganiad personol, ond yn cysylltu â'r tiwtor derbyniadau yn uniongyrchol i egluro'r sefyllfa.

Scott Mckenzie, Swyddog Ehangu Mynediad, Prifysgol Caerdydd

Mae yna lawer o 'gwnewch' ac 'na wnewch' parthed cwblhau'r adran hon. Mae'r rhain yn cynnwys y defnydd o ramadeg a sillafu cywir, osgoi hiwmor, peidio â gorliwio ac osgoi llên-ladrad o Ddatganiad Personol arall. Nid yw'r datganiad yn ymwneud â pherson ifanc yn gwneud rhestr o'u cyraeddiadau, ond yn hytrach cymhwyso'u profiadau i ddangos eu haddysg a'u datblygiad. Fe ddylai fod yn adlewyrchiad o'u profiadau i ddangos gwell dealltwriaeth ohonyn' nhw'u hunain a'u galluoedd eu hunain. Mae'n werth edrych ar-lein ar enghreifftiau o Ddatganiadau Personol, ond nodwch fod tiwtoriaid derbyniadau yn fedrus iawn o ran adnabod llên-ladrad.

Mae'r Who Cares Trust wedi cynhyrchu Cryno Ddisg, *World of Work*, sydd ag ystod o weithgareddau i helpu pobl ifanc i adnabod eu sgiliau a'u rhinweddau.

Ewch i **http://www.thewhocarestrust.org.uk/**

Y pwysigrwydd o dicio'r blwch pobl sy'n gadael gofal ar ffurflen gais UCAS

Mae'n hanfodol bod pobl sy'n gadael gofal yn ticio'r blwch ar ffurflen gais ar-lein UCAS yn datgan eu bod yn berson sy'n gadael gofal. Mae hyn yn hollol gyfrinachol, a hwn yw'r sbardun yn y brifysgol i gynnig y cymorth a'r gefnogaeth ychwanegol hon, yn cynnwys yn ariannol. Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei chylchlythyru i staff, adrannau, tiwtoriaid, ac ati, eraill, oni bai bod y person ifanc yn rhoi'i ganiatâd.

4 Y broses o lunio penderfyniadau

Ar ôl cyflwyno'r ffurflen gais, fe all yr ymgeisydd gael ei wahodd i gyfweliad - mae rhai colegau a phrifysgolion yn cyfweld pawb fel mater o arfer, ac nid yw eraill yn gwneud. Yn nhymor y gwanwyn, fe fydd pob un brifysgol yn cynnig lle amodol neu ddiamod i'r person ifanc yn seiliedig ar ffactorau megis a wnânt ennill (neu yn wir feddu ar) y graddau sydd eu hangen. Os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf, fe wnânt dderbyn gwrthodiad.

Mae'n bwysig eich bod yn gadael i UCAS wybod os yw'r person ifanc yn newid cyfeiriad, rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost yn ystod yr amser hwn.

Cynigion Amodol

Mae cynnig amodol yn cael ei wneud pan nad yw canlyniadau arholiad eto'n hysbys. Fe fydd prifysgol yn gwneud cynnig sy'n amodol ar gyflawni graddau penodol; er enghraifft, 2 B ac C neu 180 o bwyntiau neu gwblhau cwrs yn foddhaol. Weithiau, fe wnânt enwi beth mae'n rhaid i'r pwyntiau'u cynnwys.

Nid oes gan gynnig diamod unrhyw amodau o'r fath, ac mae o fel arfer wedi'i wneud os yw canlyniadau arholiadau eisoes yn hysbys neu os yw'r ymgeisydd yn fyfyriwr aeddfed.

5 Unwaith y caiff cynigion eu derbyn

Unwaith y bydd yr holl brifysgolion wedi ateb ac os yw cynigion yn ddiamod, fe fydd y person ifanc yn gallu dewis eu cwrs dewisol. Os yw lleoedd yn amodol ar raddau arholiadau, fe ddylid dethol un cyntaf (cadarn) ac ail (yswiriant). Y cynnig cadarn ddylai fod y lle dewisol yr hoffai'r person ifanc ei fynychu. Fe allant hefyd wneud dewis yswiriant, sydd fel arfer yn gynnig gyda graddau is na'r dewis cadarn. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall y person ifanc ddal i gymryd lle pe na baent yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer eu hopsiwn cyntaf.

6 Cyflawni canlyniadau arholiad gwell na'r disgwyl

Mae yna gyfnod addasu wedi'i gyflwyno'n ddiweddar ar gyfer myfyrwyr a gyflawnodd raddau arholiad uwch na'r disgwyl er mwyn eu galluogi nhw i gyflwyno cais newydd heb y risg o golli'u cynnig cadarn gwreiddiol. Felly, os na wnaeth y person ifanc anelu mor uchel ag y gallent wrth wneud eu dewisiadau, fe allant o hyd fod â chyfle i gael gwell cynnig. Mae'r meini prawf ar gyfer hyn yn eitha' manwl; ewch i wefan UCAS i weld beth yn union mae rhagori ar gynnig yn ei olygu.

7 Os nad yw cynnig wedi'i wneud

Erbyn diwedd mis Mawrth, os nad oes yna gynigion wedi'u derbyn yn ystod y cylch cyntaf o UCAS, fe ddylai'r person ifanc ymgeisio eto drwy UCAS Extra ar gyfer cyrsiau gyda lleoedd ar gael. Y rhan olaf o'r broses, os nad oes yna le wedi'i gynnig erbyn mis Awst, yw mynd i mewn i System Glirio UCAS.

8 Y System Glirio

Hwn yw'r pwynt pan fo'r prifysgolion a'r colegau yn gwybod yn union faint o leoedd sydd ganddynt yn weddill ar ôl i fyfyrwyr gyda chynigion dderbyn neu wrthod eu lle. Fe all myfyrwyr nad ydynt yn flaenorol wedi derbyn cynigion neu na wnaeth gyflawni'r graddau disgwyliedig yn awr ymgeisio'n uniongyrchol i'r prifysgolion am le. Ar ôl trafod opsiynau gyda'r prifysgolion, mae'n rhaid i'r person ifanc o'r diwedd dderbyn lle drwy UCAS. Efallai y bydd rhai'n hapus cymryd eu siawnsis a dewis aros tan ar ôl y dyddiad cau ym mis Gorffennaf am y cais cyntaf ar gyfer clirio. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt er hynny gofrestru gydag UCAS a chyflwyno datganiad personol a geirda.

Y dyddiad hwyraf ar gyfer ymgeisio drwy'r system glirio ar hyn o bryd yw'r 20fed o Fedi ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd ar ddod ond fe ddylech bob amser wirio gydag UCAS am y dyddiad mwyaf cyfredol.

9 Mynediad gohiriedig

Mynediad gohiriedig neu 'blwyddyn i ffwrdd' yw pan fo person ifanc yn penderfynu peidio â mynd ymlaen i addysg uwch yn syth ar ôl eu blwyddyn olaf yn yr ysgol. Fe allant gymryd blwyddyn i ffwrdd i weithio neu i deithio. Fe allant ymgeisio am fynediad gohiriedig ar ffurflen gais UCAS gan roi rhesymau dros fod eisiau gwneud hynny. Mae llawer o dimau derbyniadau'n fodlon iddynt wneud hyn. Gweler tudalen 14 am fwy o wybodaeth.

Pennod Naw

Cefnogi pobl ifanc sy'n dechrau mewn prifysgol

9

Cefnogi pobl ifanc sy'n dechrau mewn prifysgol

Unwaith y bydd y person ifanc sy'n fyfyriwr wedi derbyn eu lle mewn prifysgol, fe wnânt dderbyn pecyn croesawu yn cynnwys eu manylion cofrestru, yn ogystal â chanllaw parthed lletyau. Os ydynt wedi penderfynu symud i ffwrdd i brifysgol, fe fydd arnynt angen cwblhau a dychwelyd eu cais am dŷ cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi siomiant.

Mae'r aros ar ben, mae'r llety wedi'i ddatrys, mae'r bagiau wedi'u pacio, gwnewch yn sicr bod ganddynt bopeth a chofleidiwch nhw am y tro olaf, am ysbaid o leiaf. Beth sy'n digwydd yn awr?

Fe all bywyd myfyriwr fod yn llawn cynnwrf, yn enwedig yn yr ychydig wythnosau cyntaf. Yn ystod yr amser hwn, fe fydd staff a myfyrwyr presennol yn cynnig croeso cynnes i israddedigion newydd. Fe fydd Gwasanaethau Myfyrwyr wrth law i helpu mewn unrhyw ffordd y gallant. Mae Undeb y Myfyrwyr yn chwarae rhan fawr mewn helpu myfyrwyr newydd i ymgartrefu drwy drefnu digwyddiadau yn ystod Wythnos y Glas.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ymgartrefu ym mywyd prifysgol yn gyflym iawn, ond fe all problemau cyffredin yn yr ychydig wythnosau cyntaf gynnwys hiraeth, pryderon am astudiaethau a gofidiau am ennill cyfeillion. Fe all eich cefnogaeth fod yn amhrisiadwy yn ystod yr amser hwn, hyd yn oed os ydych ond galwad ffôn i ffwrdd. Os yw eu pryderon yn parhau ac maent yn teimlo bod arnynt angen cefnogaeth ychwanegol, anogwch nhw i ddefnyddio'r gwasanaethau cymorth a gynigir gan y brifysgol.

> 'Roedd myfyrwyr nad oedd ganddynt ofalwyr maeth cefnogol yn aml yn teimlo ar eu pennau'u hunain yn llwyr yn ystod eu hwythnosau cynnar. Fe gawsai rhai anhawster yn prosesu'r wybodaeth a ddarparwyd, ac fe wnaethant golli'r cyfle i ymgeisio am grantiau 'roeddynt yn gymwys amdanynt. 'Roedd ennill cyfeillion yn gynnar yn eithriadol o bwysig ac 'roedd yn haws i'r sawl gyda lleoedd mewn neuaddau preswyl. Fe wnaeth amryw o fyfyrwyr golli'r cyfle hwn oherwydd oediadau mewn penderfyniadau gan yr awdurdod lleol ynghylch cyllid.
>
> Ajayi, Jackson and Quigley (2005)

> **Anaml mae bywyd beunyddiol, hyd yn oed mewn prifysgol, yn golygu cael eich bombardio gyda diod am ddim, condomau, tuniau o ffa pob, a gwahoddiadau i roi tro ar blymio o'r awyr. Ac nid ydi o ychwaith fel arfer yn cynnig llawer o gyfleoedd i ofyn am gymorth a chefnogaeth neu i gyfarfod â chyfeillion newydd. ...Os ydych wedi canfod yr holl brofiad yn ddiflas, swnllyd a thruenus, peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to a mynd adref. Nid yw bywyd prifysgol go iawn wedi dechrau eto.**
>
> Swain. (2008) How to survive the first week Available at www.guardian.co.uk/education /2008/aug/14/uni.first.week. (cyrchwyd 1 Awst 2012)

Wythnos y Glas yw'r term mae prifysgolion a cholegau'r Deyrnas Unedig yn ei roi i'r cyfnod yn syth cyn dechrau blwyddyn academaidd newydd. Ei ddiben yw rhoi cyfle i fyfyrwyr newydd gyfarfod â'u cyd-letywyr, ennill cyfeillion newydd a datrys tasgau gweinyddol megis agor cyfrifon banc i fyfyrwyr. Mae Wythnos y Glas fel arfer wedi'i seilio ar gyfres o ddigwyddiadau cymdeithasol megis disgos, grwpiau pop byw, partïon a Dawns Wythnos y Glas.

I lawer o bobl ifanc, Wythnos y Glas fydd eu profiad cyntaf o fyw ar eu pennau'u hunain. Mae'r wythnos yn caniatáu i fyfyrwyr ymgartrefu a chael blas ar fywyd annibynnol am wythnos lawn cyn eu bod yn dechrau rhoi sylw o ddifri' i'w hastudiaethau. Mae rhai pobl ifanc yn cofleidio'r wythnos gydag egni ond fe allai eraill ei chanfod yn rhy ddwys, gyda chyfeillion newydd yn gofyn cwestiynau megis - O le wyt ti'n dod? Pa Lefelau A a gefaist ti? I rai pobl sy'n gadael gofal, fe all y cyflwyniadau hyn waethygu'u teimladau canfyddedig o fod yn wahanol.

Mae'n bwysig tawelu meddwl pobl ifanc nad yw Wythnos y Glas yn wir adlewyrchiad o'r hyn yw holl ystyr byw'n annibynnol, a bod myfyrwyr yn hanu o ystod eang o gefndiroedd.

> **Yn y pen draw, fel gofalwr maeth, efallai mai y chi yw'r unig oedolyn cyson ym mywyd person ifanc drwy gydol ei gyfnod yn y brifysgol y gallant droi ato. Fe fydd gweithwyr cymdeithasol yn mynd a dod, ac yn aml gofalwyr maeth sy'n cael yr alwad ffôn frys pan fo pethau'n mynd o chwith! Fe ddylid gweld bod bod yno ar gyfer person ifanc ar gyfer y daith faith fel braint.**
>
> Gail Duffy, Gofalwr Maeth

Cefnogi person ifanc sy'n dechrau yn y brifysgol

- canllaw gofalwr maeth

Paratoi

- Paratowch nhw ar gyfer byw'n annibynnol a rhowch gymorth gyda'r symud i brifysgol. Fe ddylai sgiliau byw'n annibynnol fod yn gyfannol ac yn cynnwys sgiliau hunan-ofal; sgiliau ymarferol megis coginio, glanhau a siopa, a hefyd sgiliau personol – rheoli perthnasoedd ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd. Fe all mynd i le newydd fod yn ddigon i godi ofn, ond fe fydd yn llai o brofiad anodd os yw'r person ifanc yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i ymdopi gyda'r agweddau beunyddiol o fywyd, megis coginio, golchi a chyllidebu.
- Os yw'r person ifanc wedi dewis byw mewn llety hunan-arlwyo, gwnewch yn sicr eu bod yn gwybod sut i goginio ychydig o ryseitiau syml. Mae yna ddigonedd o lyfrau a gwefannau ar gael sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr yn coginio ar gyllideb, ac fe fydd hyder yn y gegin yn sicrhau yn chwim iawn gyfeillgarwch cadarn.
- Gwiriwch fod eu heiddo personol wedi'i yswirio. Os yw'r person ifanc am fynd i fyw mewn neuadd breswyl, gwiriwch a yw'r yswiriant yn cael ei gynnwys ar eu ffi rhent ac os ydyw, ei fod yn cynnwys eitemau megis gliniaduron neu ffonau symud.
- Gwiriwch a oes angen trwydded deledu. Os oes gan y person ifanc deledu, neu mae'n cyrchu teledu drwy'u gliniadur, mae'n ofynnol iddynt gael trwydded deledu. Eto, gwiriwch a yw ffi'r drwydded yn cael ei chynnwys mewn unrhyw gytundeb rhent.

> **"Os na allwn fod yno i bobl ifanc ar un o'r amseroedd mwyaf diymgeledd o'u bywydau, yna 'rydym yn fethiant i'r sawl y gwnaethom addo y byddem yn gwneud gwahaniaeth iddynt."**
>
> Gail Duffy, Gofalwr Maeth

Symud i mewn

- Ewch gyda nhw ar eu diwrnod cyntaf; nid oes dim gwaeth na chyrraedd ar eich pen eich hun mewn tacsi gyda llwyth o sachau bin. Os gallwch fynd gyda nhw, gwnewch yn sicr bod rhywun yn helpu'r person ifanc i ymgartrefu ar ei ddiwrnod cyntaf ef neu hi. Cysylltwch gyda pherson cyswllt a enwir ar gyfer pobl sy'n gadael gofal o'r tîm cymorth myfyrwyr yn y brifysgol. Gweler tudalen 23 a 24.

Cyllid

- Gyda'ch gilydd, gwnewch gyllideb fel y bydd y person ifanc yn gwybod faint sydd ganddo ef neu hi i fyw arno bob mis. Gwnewch yn sicr ei fod ef neu hi'n deall gweithgareddau sylfaenol, fel sut i sgwennu siec neu wneud taliadau ar-lein, cadw cofnodion o arian yn y cyfrif adnau ac alldyniadau, gwirio'r balans banc ar-lein, a mantoli datganiad diwedd mis.
- Anogwch y person ifanc i agor cyfrif banc cyn eu bod yn dechrau mewn prifysgol. Sicrhewch fod gan y person ifanc arian yn eu cyfrif ar ddechrau'r tymor rhag ofn y bydd yna oedi yn eu siec benthyciad gyntaf neu daliadau eraill am unrhyw reswm. Byddwch yn fodlon, os yn bosibl, rhoi benthyg arian mewn argyfwng tan y bo'r awdurdod lleol cyfrifol yn gallu cymeradwyo ac anfon arian.
- Fe ddylai pobl sy'n gadael gofal fod yn hollol ymwybodol o'u hawliau yn y dyfodol i gymorth tra eu bod yn y brifysgol a phwy fydd yn ei ddarparu o, hyd yn oed os ydynt yn gwrthod cymorth bryd hynny. Gwnewch yn sicr bod unrhyw gymorth ariannol y byddant yn ei dderbyn oddi wrth eu hawdurdod lleol yn ysgrifenedig a bod ganddynt gopi o'r ddogfen.
- Gwnewch yn sicr eu bod yn mynd â digon o luniau maint pasbort gyda nhw – fe fydd arnynt eu hangen ar gyfer pob mathau o gardiau aelodaeth, trwyddedau a ffurflenni yn ystod Wythnos y Glas. Fe fydd defnyddio peiriannau lluniau pasbort yn ddrud, ac fe allwch yr un mor hawdd eu printio nhw allan gartref.

"Mae ar bobl sy'n gadael gofal yn aml eisiau dim mwy na gadael yr holl fusnes gofal y tu ôl iddynt.' Mae Goddard yn ychwanegu: ''Wrth geisio estyn allan, fe all prifysgolion yn aml bwyso ar nerf agored, bod â'r bwriad iawn ond nid â'r ddealltwriaeth iawn...mae'n dasg gywrain o gydbwyso cymorth i berson ifanc sy'n mynd i mewn i addysg uwch tra eich bod yn cydnabod eu dymuniad i fod 'yr un fath'."

(Goddard 2010)

Ennill cyfeillion

- Fe all yr ychydig ddiwrnodau cyntaf ymddangos yn llethol ac unig. Cysurwch nhw nad ydynt ar eu pennau'u hunain ac y bydd y myfyrwyr eraill fwy na thebyg yn teimlo'r un fath - mae o'n newydd i bawb. Anogwch nhw i drafod problemau gyda myfyrwyr eraill. Un o'r problemau mwyaf yw bod myfyrwyr anhapus yn tueddu i fewnoli problemau. Maent yn gweld pawb arall yn edrych yn hapus ac yn tybio bod yna rywbeth o'i le gyda nhw. Fe all siarad gydag eraill helpu i roi pethau mewn persbectif.
- Mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion restr lawn o'u cymdeithasau ar wefan eu hundeb myfyrwyr. Anogwch y person ifanc i fynd i Ffair y Glas lle y gallant gofrestru ar gyfer clybiau a chymdeithasau.

Iechyd a lles emosiynol

- Gadewch iddyn' nhw wybod bod gan bob prifysgol Wasanaethau Cymorth Myfyrwyr, sydd yno i helpu unrhyw fyfyriwr, ni waeth a ydynt wedi gadael gofal ai peidio.
- Gwrandewch. Anogwch nhw i siarad am sut maent yn teimlo am symud ymlaen, dechrau o'r newydd ac agweddau o fywyd prifysgol.
- Anogwch nhw i gofrestru gyda Meddyg Teulu a deintydd.

Cadw mewn cysylltiad

- Gwnewch yn sicr eich bod yn canfod yr amser i gyfathrebu'n rheolaidd gyda nhw i weld sut maent yn gwneud, ac atgoffwch nhw'n rheolaidd o faint maent wedi'i gyflawni i gyrraedd prifysgol, a dathlwch eu cyraeddiadau gyda nhw, ni waeth pa mor fawr neu fach. Dangoswch iddyn' nhw pa mor falch ydych ohonynt!

Am wybodaeth am astudio, bywyd myfyrwyr a chyllid, ewch i'r wefan a ganlyn:

www.uni4me.com

Pennod Deg

Ysbrydoli a chymorth pobl ifanc dan ofal i fynd i brifysgol

Ysbrydoli a chymorth pobl ifanc dan ofal i fynd i brifysgol

Y Deg o Hanfodion

1. Hyrwyddwch, anogwch a chefnogwch ddatblygiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Byddwch â dyheadau drostynt o oed cynnar iawn.

2. I blant a phobl ifanc dan ofal, mae blaengynllunio yn eithriadol o bwysig. Os yw person ifanc sydd wedi'i faethu yn meddwl am fynd i goleg (Addysg Bellach) neu brifysgol (Addysg Uwch), gwnewch yn sicr bod hyn yn cael ei nodi yn eu Cynllun Llwybr. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau'u bod yn cael y cyllid a'r cymorth priodol.

3. Helpwch nhw i gynllunio ar gyfer y brifysgol a'r cwrs sydd fwyaf addas iddyn' nhw.

- Cymerwch ran yn y cynllunio a'r paratoi.
- Mynychwch ddiwrnodau agored gyda nhw.
- Casglwch wybodaeth am y cymorth a'r pecynnau cymorth sydd ar gael.
- Canfyddwch ac anogwch gysylltiad gyda'r person cyswllt penodedig ar gyfer pobl sy'n gadael gofal ym mhob un brifysgol.

4. Dewch i wybod am system ymgeisio'r Brifysgol. Cynefinwch eich hun gyda'r dyddiadau cau ar gyfer dyddiadau ymgeisio a diwrnodau agored UCAS, er enghraifft. Rhestrwch ddyddiadau allweddol fel eich bod yn gwybod beth sydd angen cael ei wneud ym mhob tymor ysgol ac nad yw'r person ifanc yn colli unrhyw ddyddiadau cau, a thrwy hynny gau unrhyw opsiynau sydd ar gael iddyn' nhw.

5. Gwrandewch. Anogwch nhw i siarad am sut maen' nhw'n teimlo am symud ymlaen, dechrau o'r newydd ac agweddau o fywyd prifysgol.

6. Anogwch nhw a rhowch gymorth iddyn' nhw i ddatblygu cyfeillgarwch.

7. Paratowch nhw ar gyfer byw'n annibynnol a rhowch gymorth gyda'r symud i brifysgol. Fe ddylai sgiliau byw'n annibynnol fod yn gyfannol a chynnwys sgiliau hunan-ofal; sgiliau ymarferol megis coginio, glanhau a siopa, a hefyd sgiliau personol - rheoli perthnasoedd ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd.

8. Ar y diwrnod cyntaf yn y brifysgol, gwnewch yn sicr eich bod yn mynd gyda nhw, ac os na fedrwch, gwnewch yn sicr bod rhywun yn helpu'r person ifanc i ymgartrefu ar eu diwrnod cyntaf. Gwnewch yn sicr nad oes yn rhaid iddynt deimlo'n annibynnol i gyd ar unwaith.

9. Gwnewch yn sicr bod unrhyw gymorth ariannol y byddant yn ei dderbyn oddi wrth eu hawdurdod lleol yn ysgrifenedig a bod ganddynt gopi o'r ddogfen.

10. Cadwch mewn cysylltiad. Gwnewch yn sicr eich bod yn canfod yr amser i gyfathrebu gyda nhw yn rheolaidd i weld sut maen' nhw'n gwneud, ac atgoffwch nhw'n rheolaidd o faint maen' nhw wedi'i gyflawni i gael eu hunain yno. Gwnewch yn sicr eich bod yn mynychu'r seremoni raddio. Dangoswch iddynt pa mor falch 'rydych ohonynt.



Pennod Un ar ddeg

Casgliad

11

Casgliad

Fel casgliad, mae'n eglur na ddylai bod wedi bod dan ofal fod yn rhwystr anorchfygol i bobl ifanc rhag symud ymlaen i addysg uwch. Nid achos ydi o nad yw pobl sy'n gadael gofal yn alluog i fynd i addysg bellach ac addysg uwch. Yn hytrach, mae angen gwneud mwy i'w hannog nhw i ymgeisio ac i roi cymorth iddyn' nhw i barhau drwy'r cwrs.

I lawer o bobl ifanc dan ofal, mae o ond yn cymryd un person i gredu ynddynt. I gefnogi ac i eiriol mewn amseroedd pan fônt yn teimlo nad oes neb yn gofalu. Nid yw'n cymryd llawer i blentyn sy'n derbyn gofal neu berson sy'n gadael gofal i gredu'u bod wedi'u tynghedu i fethu oherwydd y bydd y rhan fwyaf o bobl y byddant yn dod ar eu traws yn disgwyl iddynt fethu. Fodd bynnag, i rai pobl ifanc dan ofal, y cwbl mae'n ei gymryd yw i un person dreulio'r amser, credu ynddynt a'u hannog nhw i lwyddo a chyflawni mewn bywyd. Dyma un o rolau pwysicaf gofalwr maeth.

Fe ddylai pobl sy'n gadael gofal sy'n mynd i brifysgol fod yn sicr y bydd rhywun yn cadw mewn cysylltiad â nhw, fydd yn cadw golwg ar sut maent yn gwneud, yn darparu cefnogaeth pan fo angen, ac yn anad dim, yn dathlu'u llwyddiannau ar hyd y ffordd. Dyma ble mae rôl y gofalwr maeth o ran cefnogaeth barhaus yn fwyaf amhrisiadwy i bobl sy'n gadael gofal.

Fe all pobl sy'n gadael gofal fynd i brifysgol ac fe allant yn bendant iawn lwyddo.

Pennod Deuddeg

Adnoddau Ategol

12

Adnoddau Ategol

Fosterline WALES
Llinell Maethu CYMRU
0800 316 7664

Monday-Friday 9.30am to 12.30pm
In addition, an answer phone message can be left 24 hours a day, using the same **free** phone number **0800 316 7664**, and a **Fosterline** WALES worker will either ring back on the same day, or the next working day.

Llinell Maethu Cymru

Mae Llinell Maethu Cymru yn llinell gynghori radffon gyfrinachol annibynnol i bawb sy'n gysylltiedig â gofal maeth yng Nghymru. **0800 316 7664 Dydd Llun - Dydd Gwener, 9:30 y bore tan 12:30 y pnawn**

Siop Gyhoeddiadau'r Rhwydwaith Maethu

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cynnig ystod o gynhyrchion a gwasanaethau i helpu gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol i gefnogi plant a phobl ifanc dan ofal.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n siop ar-lein: **www.fosteringresources.co.uk**

Ffynnu Rhifyn Arbennig: Mynd i Brifysgol Cylchgrawn Rhwydwaith Maethu Cymru ar gyfer pobl ifanc dan ofal

Ac yntau am ddim i aelodau, mae *Ffynnu* yn rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc 14-16 mlwydd oed mae arnynt eisiau mynd i brifysgol. Lawrlwythwch eich copi oddi wrth: **http://www.fostering.net/all-about-fostering/resources/newsletters/thrive-newsletter-young-people**



Pecyn Cymorth Addysg Ar-lein Rhwydwaith Maethu Cymru

Gan fod am ddim i Aelodau, nod ein Pecyn Cymorth ar Addysg yw gwella profiadau addysgol plant sy'n derbyn gofal drwy wneud gwybodaeth a chymorth ynghylch addysg yn fwy hygyrch i ofalwyr maeth a gwasanaethau maethu. Gan ddefnyddio'ch manylion mewngofnodi aelodaeth anghynhwysol, ewch i **www.fostering.net/wales**

Canllaw Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar gyfer pobl ifanc dan ofal ac yn gadael gofal yng Nghymru



Fe ellir lawrlwytho'r canllaw cynhwysfawr hwn am ddim oddi ar **www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/adran-gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr/support-for-care-leavers/** Mae'r canllaw'n darparu gwybodaeth ymarferol ac arweiniad yn cynnwys gwybodaeth am gymwysterau, dewis y cwrs cywir, y broses ymgeisio, yn ogystal â chymorth ariannol, emosiynol a chyffredinol. Gwybodaeth ar gyfer 2011/2012.

My Planner

Mae *My Planner* wedi'i gynllunio i roi cymorth a chyngor i bobl ifanc dan ofal ar adeg pan fo pobl ifanc yn dechrau meddwl am adael gofal. Mae'n cynnwys cyngor am addysg uwch.

Lawrlwythwch eich copi am ddim oddi ar **http://www.childcom.org.uk/en/my-planner/**

By Degrees: From Care to University

Fe wnaeth yr astudiaeth hon ddisgrifio profiadau grŵp o bobl ifanc, 'roedd dim byd yn wybyddus amdanynt yn flaenorol - y lleiafrif bychan iawn o fyfyrwyr mewn addysg uwch sy'n dod o'r gyfundrefn ofal. 'Roedd yn darparu tystiolaeth eglur bod eu gallu a'u potensial yn cael eu diystyru'n systematig a'u bod yn cael eu hamddifadu o'r rhan fwyaf o gyfleoedd addysgol sy'n agored i bobl ifanc eraill. Fe wnaeth yr astudiaeth sbarduno cyflwyno bwrsariaeth gwerth £2,000 i bobl sy'n gadael gofal sy'n mynd ymlaen i addysg uwch. Fe wnaeth annog llawer o brifysgolion ac awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig i wella'r cymorth maent yn ei gynnig i bobl sy'n gadael gofal cyn ac ar ôl iddynt fynd i mewn i Addysg Uwch. Mae'r ymchwil hefyd wedi dylanwadu ar feddylfryd polisi mewn gwledydd eraill. Ewch i **www.buttleuk.org/resources.php/530/by-degrees-going-to-university-from-care-full-report**

Maethu llwyddiant Addysg Uwch yng Nghymru; adroddiad o farn Gofalwr Maeth am gymorth plant mewn addysg

Mae'r adroddiad hwn a gyhoeddwyd gan Rhwydwaith Maethu Cymru a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd yn dangos bod ar ofalwyr maeth eisiau bod, ac y dylent fod, yn fwy cysylltiedig â chefnogi'r plant maen' nhw'n gofalu amdanynt i lwyddo mewn addysg.

Ewch i **http://www.fostering.net/all-about-fostering/all-resources**

Cyfeiriadau

Collis, A. (2008), Education, Y Rhwydwaith Maethu.

Ajayi, S. Jackson, S and Quigley, M. (2005) Going to university from care: final report By Degrees project, Sefydliad Addysg Llundain.

Croft, D. (2011). Care Leavers and Education...What you need to know Newyddion Maethu Cymru, yr hydref. Y Rhwydwaith Maethu.

Newmark, V. (2010), Reach for the Sky, Foster Care, rhifyn 142. Y Rhwydwaith Maethu.

R. O'Driscoll, D. Miller & H. Davies. (2011) Fostering Higher Education success in Wales: a report of foster carer's views on supporting children in education', Prifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De Orllewin Cymru (2011) Further and Higher Education guide for young people in and leaving care 2011-12.

Swain. (2008) How to survive the first week ar gael yn www.guardian.co.uk/education/2008/aug/14/uni.first.week. (cyrchwyd 1 Awst 2012).

Y Rhwydwaith Maethu (2008); Improving the educational achievements of looked-after children.

Y Rhwydwaith Maethu (2006) Rhifyn Arbennig o Ffynnu: 'Mynd i Brifysgol'.

Y Rhwydwaith Maethu (2010) Revo, Education. Rhifyn 6.

The Who Cares Trust (2012) Finding your way.

Y Rhwydwaith Maethu yw elusen flaenllaw'r Deyrnas Unedig ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â gofal maeth. Fel llais gofal maeth y Deyrnas Unedig, 'rydym wedi ymrwymo i godi safonau gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu maethu drwy'r Deyrnas Unedig i gyd. 'Rydym yn gweithio gyda'n haelodau i rannu gwybodaeth ac ymarfer da, hyrwyddo maethu ac ymgyrchu dros newidiadau cadarnhaol mewn gofal maeth.

www.fostering.net

I ganfod mwy am y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Y Rhwydwaith Maethu Cymru
Un Pentir Caspian, Stryd Pierhead
Bae Caerdydd CF10 4DQ
Ffôn: 029 2044 0940
E-bost: wales@fostering.net

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

ISBN 1 897869 68 1

Mae'r Rhwydwaith Maethu wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig, rhif 1507277. Mae'r swyddfa gofrestredig yn 87 Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA. Rhif yr elusen gofrestredig yw 280852 yng Nghymru a Lloegr, a rhif SCO39338 yn yr Alban.

© Y Rhwydwaith Maethu 2012

Yr holl hawliau wedi'u neilltuo. Ni cheir atgynhyrchu, storio na rhoi i mewn i system adalw unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i drosglwyddo, mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddull (yn electronig, yn fecanyddol, drwy lungopïo, recordio neu fel arall) heb ganiatâd y cyhoeddwr ymlaen llaw.

rhwydwaith maethu
llais gofal maeth
the fostering network
the voice of foster care